CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

CCQOL



# LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
# COMMUNITY VOICES CARDIFF

## Adroddiad Lleisiau Cymunedol Caerdydd
## Mai 2023

YMGYNGHORIAD CYMUNEDOL AR GYFER ANSAWDD BYWYD

COMMUNITY VOICES CARDIFF

COMMUNITY VOICES CARDIFF

COMMUNITY VOICES CARDIFF

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

LET'S CHAT

LET'S CHAT

LET'S CHAT

26 Mai 2023
Lleisiau Cymunedol Caerdydd https://communityvoicescardiff.commonplace.is/cy-GB
Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL) http://ccqol.org/
Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL) Caerdydd
http://ccqol.org/piloting-healthy-neighbourhoods/
Mhairi McVicar mcvicarm@cardiff.ac.uk
Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddelweddau gan CCQol, Lleisiau Cymunedol Caerdydd, Y Porth Cymunedol, a'r Uned Gwerth 2022-2023, MArch2, Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd.

# Cydnabyddiaethau

**Tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd, Prifysgol Caerdydd**

Yr Athro Mhairi McVicar - Cyd-Ymchwilydd, Caerdydd, Arweinydd Academaidd y Porth Cymunedol.
Mymuna Soleman - Rheolwr Partneriaethau Cymunedol, Caerdydd
Shoruk Nekeb - Llysgennad Myfyrwyr, Caerdydd
Cefnogaeth gan dîm y Porth Cymunedol: Ali Abdi, Corey Smith, Sarah Hughes. Sophey Mills

**Partneriaid Prosiect Caerdydd**

Sefydliad Corfforedig Elusennol (CIO) Pafiliwn Grange
https://grangepavilion.wales/cy/

Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd
https://www.cardiff.ac.uk/cy/community/our-local-community-projects/community-gateway

Cyngor Caerdydd
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Pages/default.aspx

**Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd**

Yr Athro Flora Samuel - Prif Ymchwilydd, Prifysgol Reading
Dr Ruchit Purohit - Cynorthwyydd Ymchwil

Yr Athro Lorraine Farrelly - Cyd-Ymchwilydd, Prifysgol Reading
Nisa Unis - Rheolwr Partneriaethau Cymunedol, Reading

Saul Golden - Cyd-Ymchwilydd, Prifysgol Ulster
Anna Skoura - Rheolwr Partneriaethau Cymunedol, Ulster

John Brennan - Cyd-Ymchwilydd, Prifysgol Caeredin
Irina Taverna - Rheolwr Partneriaethau Cymunedol, Caeredin

**Partneriaid Cymunedol Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL)**

**Symbioteg Drefol / Urban Symbiotics**
https://urbansymbiotics.com/

**Y Sefydliad Ansawdd Bywyd / Quality of Life Foundation**
https://www.qolf.org/

**Commonplace**
https://www.commonplace.is/

**Mae CCQol yn cael ei arwain gan Brifysgol Reading gyda'r partneriaid canlynol**

University of Reading
QUALITY OF LIFE FOUNDATION
Commonplace
UK COLLABORATIVE CENTRE FOR HOUSING EVIDENCE
CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
THE UNIVERSITY of EDINBURGH
Ulster University
urban symbiotics

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| BELONGING | CONTROL | WONDER | NATURE | MOVEMENT | HEALTH |
| PHERTHYN | RHEOLI | RHYFEDDOD | NATUR | SYMUD | IECHYD |
| LAHAANSHO | XAKAMAYN | YAAB | DABICI | DHAQDHAQAAQ | CAFIMAAD |
| الانتماء | سيطرة | تعجب | طبيعة | حركة | صحة |
| AIDIYET | KONTROL | MERAK | DOĞA | HAREKET | SAĞLIK |
| شان مربوط | کنترول | بفهمانم | طبیعی | حرکت | صحت |
| 归属感 | 控制 | 奇迹 | 自然 | 移动 | 健康 |
| تعلق | لگانا پابندی | کن حیران | بریالی | حرکت | صحت |
| APARTENENTA | CONTROLA | MIRARE | NATURĂ | CIRCULAŢIE | SĂNĂTATE |
| অন্তর্গত | নিয়ন্ত্রণ | আশ্চর্য | বন্যপ্রাণী | আন্দোলন | স্বাস্থ্য |
| RASA KEKITAAN | RASA KESESUAIAN | KEINDAHAN | ALAM SEKITAR | PERGERAKAN | KESIHATAN |

# Mynegai


1. Cyflwyniad

Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL) 4

Themâu'r Sefydliad Ansawdd Bywyd 6

Tîm CCQol ac amserlenni 7

2. Lleisiau Cymunedol Caerdydd: Ystafell Drefol cymdogaeth 9

Tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd 10

Grŵp Cynghori Lleol Lleisiau Cymunedol Caerdydd 12

Cynllunio Ystafell Drefol cymdogaeth 15

Â phwy y gwnaethon ni gysylltu? 16

Myfyrdodau ar gynllunio Ystafell Drefol 17

3. Rhedeg Ystafell Drefol cymdogaeth 19

Calendrau a phosteri o weithgareddau 20

Wythnos 1: Iechyd a Lles 26

Wythnos 2: Tai 28

Wythnos 3: Mannau gwyrdd 30

Wythnos 4: Lleisiau Ifanc 32

Cydweithredwyr 34

4. Myfyrdodau a'r Hyn a Ddysgwyd 36

Canlyniadau gwefan Lleisiau Cymunedol Caerdydd 38

Myfyrdodau tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd ar yr ystafell drefol 50

Iaith yr ymgynghoriad 52

5. Trafodaethau Parhaus: Nid Yw'n Anodd Fy Nghyrraedd 54

Sgyrsiau am Gynllun Lle Grangetown 58

6. Myfyrdodau ar y cwestiynau ymchwil 74

Crynodeb 76

Cydweithwyr, cyfranwyr a chefnogwyr 77

# 1. Cyflwyniad

## CYmgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL)

Mae Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn rhan o brosiect ymchwil ledled y DU, Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer A|nsawdd Bywyd (CCQol). Wedi'i ariannu gan Gyngor y Celfyddydau a'r Dyniaethau ac Ymchwil (AHRC) a'i arwain gan yr Athro Flora Samuel ym Mhrifysgol Reading (y 'Prif Ymchwilydd'), mae CCQol yn seiliedig ar y gred bod creu mapiau o asedau lleol - y lleoedd y mae pobl yn eu gwerthfawrogi fwyaf yn eu cymunedau - yn ffordd dda o gynnwys cymunedau lleol wrth gyd-greu gwybodaeth leol am eu hardal. Nod y dull hwn sy'n seiliedig ar fapiau yw profi sut y gall creu'r wybodaeth leol hon drwy ymgynghori â'r gymuned helpu i lywio penderfyniadau tymor hwy am ddatblygiad a gwelliannau yn ein cymunedau yn y dyfodol.

**Mae CCQoL yn gofyn y cwestiynau ymchwil canlynol:**

1. Sut y gellir gwneud ymgynghoriad cymunedol yn fwy defnyddiol ac effeithiol ar draws cyd-destunau polisi amrywiol y DU?

2. Sut y gellir gwneud ymgynghoriad cymunedol yn fwy cynrychioliadol a chynhwysol?

3. Sut y gellir cynnal ymgynghoriad cymunedol ar gyfer ardaloedd sydd heb eu datblygu eto, pan nad yw 'defnyddwyr y dyfodol' yn hysbys?

4. Beth yw manteision cymharol ymgynghori â'r gymuned ar-lein ac yn bersonol? Pa fformat y gallai ymgynghoriad cymunedol ei gymryd mewn pandemig?

4. Sut y gellir gwneud ymgynghori â'r gymuned yn brosiect hirdymor sy'n meithrin trafodaeth ddinesig barhaus?

5. Sut gall mapio gwerth cymdeithasol lywio'r broses o ymgynghori â'r gymuned?

6. Pa derminoleg sydd ei hangen i ddisgrifio ymgynghoriad cymunedol cynhwysol, grymusol yr 21ain ganrif?

Mae'r cwestiynau hyn, a photensial ymgynghori cymunedol ar sail mapiau, wedi'u trafod mewn pedair 'Ystafell Drefol' a sefydlwyd ledled y DU yn 2022.

## Ystafelloedd Trefol CCQoL

Sefydlodd CCQol 'Ystafelloedd Trefol' fel mannau ffisegol lle gallai pobl alw heibio, cyfarfod neu gynnal gweithgareddau i rannu a thrafod gwybodaeth am eu hardal leol. Roedd yr Ystafell Drefol yn rhedeg ochr yn ochr â gwaith mapio digidol, gan ddarparu amrywiaeth o ffyrdd o rannu gwybodaeth a safbwyntiau. Sefydlwyd Ystafelloedd Trefol am gyfnod o bedair wythnos yr un yn Reading (Mawrth 2022), Caerdydd (Mai 2022), Caeredin (Mehefin 2022) a Belfast (Medi 2022), gyda thîm CCQol ym mhob lleoliad yn profi dull gweithredu gwahanol o ran ble a sut y gellir sefydlu Ystafell Drefol, a sut y gellir ei rhedeg. Yng Nghaerdydd, gwnaethom sefydlu Ystafell Drefol ym Mhafiliwn y Grange, gan ganolbwyntio ar sut y gellir sefydlu Ystafell Drefol mewn lleoliad cymdogaeth, a ffurfio phartneriaeth â Phafiliwn Grange fel lle sy'n eiddo i'r gymuned.


Edinburgh
Belfast
Cardiff
Reading

# Themâu'r Sefydliad Ansawdd Bywyd

Mae'r Sefydliad Ansawdd Bywyd, sy'n bartner yn y prosiect Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd, yn elusen sydd wedi ymrwymo i greu mwy o atebolrwydd ac annog modelau datblygu mwy cynaliadwy drwy sicrhau bod iechyd a lles wrth wraidd y ffordd yr ydym yn creu ein cartrefi a'n cymdogaethau ac yn gofalu amdanynt.

Mae'r Sefydliad Ansawdd Bywyd yn diffinio ansawdd bywyd fel lles corfforol, cymdeithasol a seicolegol person. Mae'n credu, 'os gallwn wella'r amgylchedd adeiledig — yr adeiladau a'r cymdogaethau lle mae pobl yn byw — yna gallwn wella ansawdd bywyd pobl. Sy'n dda i bobl ac yn dda i'r blaned. '

Datblygodd y Sefydliad Ansawdd Bywyd fframwaith sy'n dwyn ynghyd waith y Sefydliad mewn chwe thema hollbwysig gyda phwyslais ar iechyd a lles: Rheoli, Iechyd, Natur, Rhyfeddod, Symud a Pherthyn.  Cymhwyswyd y chwe thema hyn at fapiau digidol yr Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd, gan ofyn i bobl nodi pa rai o'r themâu hyn y gellid eu defnyddio i ddisgrifio'r ffordd y maent yn teimlo am leoedd a nodwyd ganddynt ar fap lleol. Y gobaith yw y gall creu map o'r lleoedd sy'n bwysig i bobl, a pham maent yn bwysig iddynt, helpu i lywio penderfyniadau cynllunio tymor hir am bob un o'r ardaloedd a fapiwyd.



# Tîm ac amserlenni CCQol

Aeth Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQoL) ati i brofi ymgynghoriadau wyneb yn wyneb ac ar-lein, gan ddefnyddio'r chwe thema a nodwyd gan y Sefydliad Ansawdd Bywyd, drwy gynnal ystafelloedd trefol ffisegol a mapiau ar-lein o bedair dinas yn y DU, sef: Reading, Caerdydd, Belfast a Chaeredin. Roedd cynnal y rhain y naill ar ôl y llall dros gyfnod o flwyddyn yn golygu y gellid cymhwyso'r hyn a ddysgwyd o bob un at y ddinas nesaf, gan ystyried beth weithioddd yn ogystal â beth na weithiodd. Yn ogystal â thimau ymchwil ym mhob dinas, roedd tîm ymchwil CCQOL yn cynnwys:



Yr Athro Flora Samuel - Prif Ymchwilydd. Mae Flora yn arwain y prosiect yn gyffredinol ac yn rhoi cyngor i bob un o dimau ymchwil y dinasoedd er mwyn helpu i sicrhau cysondeb rhwng pob dinas.



Dr Ruchit Purohit - Cynorthwyydd Ymchwil. Cefnogodd Ruchit leoliad pob dinas, gan dreulio mis ym mhob dinas i gefnogi'r gwaith o gasglu a dadansoddi data ar draws y prosiect cyfan.

**Reading**

Cynllunio ystafell drefol (4 mis)

Ystafell Drefol (1 mis)

myfyrdodau a'r hyn a ddysgwyd

Adroddiad Reading

Adroddiad Lloegr

**Cardiff**

Cynllunio ystafell drefol (4 mis)

Ystafell Drefol (1 mis)

myfyrdodau a'r hyn a ddysgwyd

Adroddiad Caerdydd

Adroddiad Cymru

**Caeredin**

Cynllunio ystafell drefol (4 mis)

Ystafell Drefol (1 mis)

myfyrdodau a'r hyn a ddysgwyd

Adroddiad Caeredin

Adroddiad yr Alban

**Belfast**

Cynllunio ystafell drefol (4 mis)

Ystafell Drefol (1 mis)

myfyrdodau a'r hyn a ddysgwyd

Adroddiad Belfast

Adroddiad Gogledd Iwerddon

**Adroddiad a Chod Ymddygiad y DU**



Llun gan Fiona Shaw


Llun gan Fiona Shaw


Llun © Kyle Pearce





# 2. Lleisiau Cymunedol Caerdydd

## 'Perthynas, nid affair': Ystafell Drefol cymdogaeth

Yn 2014, gwnaeth Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd ymrwymiad hirdymor i ddatblygu prosiectau partneriaeth sydd o fudd i'r ddwy ochr yn Grangetown, Caerdydd, sef ward etholiadol â 20,000 o drigolion yn ne Caerdydd. Arweiniodd galwad agored am syniadau partneriaeth at dros 80 o brosiectau partneriaeth, gan gynnwys grŵp o drigolion a fynegodd ddiddordeb mewn gwneud rhywbeth am hen Bafiliwn Bowls gwag a oedd yn dirywio mewn parc cymdogaeth poblogaidd.  Arweiniodd wyth mlynedd o gydweithio at ddatblygu Sefydliad Corfforedig Elusennol Pafiliwn Grange a chodi £2 filiwn i ailddatblygu'r safle fel cyfleuster dan berchnogaeth a rheolaeth y gymuned.

Pan ffurfiwyd y Porth Cymunedol gyntaf, cynghorodd un o drigolion Grangetown y Porth Cymunedol i fod yn barod i ymrwymo i 'berthynas ac nid affair. ' Gyda'r egwyddor honno mewn golwg, roedd dull tîm CCQol Caerdydd o sefydlu Ystafell Drefol yng Nghaerdydd yn canolbwyntio ar sut y gallai'r prosiect wneud cyfraniad pendant at gydweithrediad hirdymor yn seiliedig ar leoedd yn Grangetown.


Llun © Peter Evans

Porth Cymunedol: Ali Abdi, Corey Smith, Sophey Mills, Mhairi McVicar

Gan adeiladu ar ymrwymiad presennol Prifysgol Caerdydd i ddatblygu Pafiliwn y Grange wrth iddo baratoi i gael ei lansio'n ffurfiol ym mis Mai 2022, datblygodd tîm CCQol Caerdydd yr Ystafell Drefol fel ffocws ar raddfa cymdogaeth ar gyfer sgyrsiau am sut y gallai unigolion a sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn Grangetown neu yn yr ardaloedd o amgylch Grangetown godi ymwybyddiaeth o ymgynghoriadau arfaethedig gan Gyngor Caerdydd ar ei Gynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) a chyfrannu atynt.


Llun gan Benham Architects &  IBI Group

# Tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd

## Mae ymgysylltu dinesig yn gosod her i brifysgolion fod yn rhan o'r gymuned ac nid dim ond yn y gymuned.

Yr Athro Syr David Watson, *Managing University a Civic Engagement* (Maidenhead, Gwasg y Brifysgol Agored, 2007)

Gyda'r nod o greu Ystafell Drefol yng Nghaerdydd sy'n canolbwyntio ar y gymdogaeth, roedd yn bwysig bod tîm CCQol Caerdydd yn cynnwys gwybodaeth leol fanwl, bod amrywiol fathau o wybodaeth, arbenigedd, profiadau bywyd a dulliau gweithredu gwahanol yn cael eu gwerthfawrogi, a bod y broses ymchwil yn darparu ar gyfer dysgu ar hyd y ffordd, gan addasu mewn ymateb i'r hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio. Daeth y tîm o Gaerdydd ag academaidd-bensaer, ymgyrchydd cymunedol a oedd yn byw yn lleol a myfyriwr israddedig a oedd hefyd yn byw yn yr ardal at ei gilydd am gyfnod o 6 mis (Ionawr-Gorffennaf 2022) i gynllunio ac arwain ystafell drefol Caerdydd, gyda chymorth tîm CCQol y DU, yn ogystal ag am gyfnod dilynol ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2022 i gynllunio'r camau nesaf a myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r ystafell drefol.



Fel arweinydd academaidd Porth Cymunedol Prifysgol Caerdydd, mae Cyd-Ymchwilydd CCQol Caerdydd, Mhairi McVicar, wedi bod yn rhan o dîm sy'n cydweithio ag unigolion a sefydliadau yn Grangetown ers 2012, gan gynnwys ailddatblygu Pafiliwn Grange. Ar ôl ymgorffori addysgu, ymchwil a datblygiad proffesiynol ym Mhrifysgol Caerdydd i gefnogi prosiectau pendant a theg dan arweiniad y gymuned yn Grangetown, nod craidd Mhairi ar gyfer CCQol Caerdydd oedd y dylai'r ymchwil gefnogi camau gweithredu pendant a hirdymor dan arweiniad y gymuned.

Rheolwr Partneriaethau Cymunedol CCQol, Mymuna Soleman, yw sylfaenydd y Privilege Cafe, sef fforwm diogel, agored sy'n trafod rhyngweithiadau braint gwyn a hil sydd wedi cysylltu â dros 5000 o bobl drwy 50 o sesiynau ar-lein. Yn enedigol o Gymru ac o darddiad Somalïaidd, rhoddodd Mymuna cyngor i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Fel rheolwr partneriaethau CCQol, heriodd Mymuna ragdybiaethau prosesau ymchwil gyda ffocws ar addasu drin dulliau ymgynghori fel endidau unigol a'u haddasu er mwyn gynnwys lleisiau'r rhai mwyaf ymylol.





Ymunodd Shoruk Nekeb â thîm CCQol Caerdydd fel Llysgennad Myfyrwyr, ar ôl cwblhau BSc mewn Astudiaethau Pensaernïol ym Mhrifysgol Caerdydd yn ddiweddar. Fel preswylydd lleol o dras Libiaidd, mae Shoruk yn un o Gyd-Gyfarwyddwyr Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange, sy'n creu man diogel, gwarchodedig a rennir i bobl ifanc yn yr ardal. Ei phwyslais wrth ymuno â'r tîm oedd gwerthfawrogi ymgynghori ar bob lefel, gan gynnwys y sgyrsiau achlysurol, dyddiol sy'n gwahodd pobl i fynegi eu barn mewn mannau ac ar blatfformau lle maent yn teimlo eu bod yn perthyn.



Nod arferion â chymhelliant cymdeithasol yw trawsnewid y mannau a'r adeiladau sy'n bwysig i bobl. Yn aml, mae ganddynt ymrwymiad cryf i gydraddoldeb, cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol, ac mae ymchwil yn y maes hwn yn cefnogi'r nodau hyn, gan werthfawrogi profiadau bywyd a mathau o arbenigedd nad ydynt yn rhai proffesiynol.

Udall, J., 2015. 'Demystifying Social Research Methods', yn: Dye, A., Samuel, F. (golygyddion), *Demystifying Architectural Research.* RIBA Enterprises, Newcastle-upon-Tyne, tt. 43-50.

# Grŵp Cynghori Lleol Lleisiau Cymunedol Caerdydd

Cefnogwyd y gwaith cynllunio ar gyfer Ystafell Drefol CCQol Caerdydd sy'n canolbwyntio ar y gymdogaeth gan Grŵp Cynghori Lleol a oedd yn cynnwys trigolion o'r ardal leol a chynrychiolwyr o sefydliadau a grwpiau gwirfoddol ym meysydd cynllunio trefol, y celfyddydau, trefnu cymunedol, addysg ac aelodau o awdurdodau lleol.

Cyfarfu'r Grŵp Cynghori Lleol 6 gwaith rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022 i roi cyngor a myfyrio ar y gwaith o baratoi, rhedeg a myfyrio ar yr Ystafell Drefol, gan ddod â gwahanol fathau o arbenigedd a phrofiad bywyd - weithiau o ddegawdau o gymryd rhan mewn ymgynghoriadau - at y bwrdd.



# Argymhellion Bwrdd Cynghori Lleol CCQol Caerdydd

## ar gyfer cynllunio ystafell drefol

Byddwch yn ymwybodol o eiriau ac iaith a all gael effaith negyddol.

Ewch ati i lunio ymgynghoriad ar y cyd â chymunedau o ddechrau'r broses ddylunio a chadw pobl mewn cysylltiad yn ystod y broses gyfan.

Cyfieithwch ddeunydd ymgynghori.

Parhewch i gysylltu â chymunedau wrth ddylunio prosesau ymgynghori, cadwch y berthynas honno i fynd.

Defnyddiwch fformatau hygyrch o dechnegau cyfathrebu i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys.

Byddwch yn agored i herio / trafod atebolrwydd a theimlo'n ddiogel i wneud hynny ond gwnewch yn siŵr hefyd fod eraill yn teimlo'n ddiogel i rannu hefyd.

Peidiwch â homogeneiddio cymunedau na'u grwpio fel un. Dylech ystyried eu bod yn unigolion a chael sgyrsiau a deialog barhaus â nhw.

Byddwch yn agored ac yn dryloyw ynghylch diffygion a chaniatáu lle i newid.

**CommunityVoicesCardiff**
@VoicesCardiff

Rydym mor FALCH o gyhoeddi'r ymchwil hon i ddulliau gwahanol o ymgynghori â'r gymuned!

Rydym yn cynnal gweithgareddau ym mis Mai 2022!

Rydym yn gofyn am gynigion ar gyfer gweithgareddau sy'n seiliedig ar ein pedair thema.

1. Iechyd a Lles
2. Tai
3. Mannau Gwyrdd
4. Lleisiau Ifanc

DILYNWCH NI!



# Cynllunio Ystafell Drefol cymdogaeth

Dechreuwyd cynllunio rhaglen ar gyfer Ystafell Drefol cymdogaeth drwy fynd ati i gysylltu â sefydliadau ac unigolion oedd wedi'u lleoli yn yr ardal leol, a oedd yn cyfrannu at yr ardal leol a / neu a oedd yn awyddus i gynyddu cyfranogiad yn yr ardal leol.  Dechreuodd sgyrsiau drwy gysylltu â chysylltiadau drwy rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol tîm CCQol Caerdydd yn ogystal â chysylltu'n uniongyrchol â sefydliadau ac unigolion yr oedd eu gwaith yn cynnwys ffocws ar Grangetown neu y gallai gynnwys ffocws ar Grangetown. Drwy'r sgyrsiau hyn a thrwy argymhellion y Grŵp Cynghori Lleol, daeth 4 thema allweddol i'r amlwg fel meysydd â blaenoriaeth ar gyfer cyfranogiad unigolion a sefydliadau yn yr Ystafell Drefol:

**Iechyd a Lles** - hyrwyddo ymwybyddiaeth o fentrau iechyd a lles lleol a hybu iechyd a lles fel rhan o weithgareddau ymgynghori â'r gymuned.

**Tai** - pryderon ynghylch bygythiadau costau byw cynyddol, prisiau tai, effaith cynigion datblygu lleol ar foneddigeiddio, y gallu i unigolion ac Awdurdodau Tai lleol gysylltu wyneb yn wyneb, a phŵer unigolion a grwpiau lleol i gael mynediad at fentrau tai dan arweiniad y gymuned a'u gweithredu.

**Mannau Gwyrdd** - dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth a'r amrywiaeth o fannau gwyrdd yn y ddinas a gwella mynediad atynt.

**Lleisiau Ifanc** - cefnogi mentrau llawr gwlad dan arweiniad pobl ifanc, cynnwys lleisiau ifanc mewn prosesau cynllunio, ac alinio â menter Dinas sy'n Gyfeillgar i Blant sy'n cwmpasu'r ddinas gyfan.

Gwnaeth y Grŵp Cynghori Lleol gysylltu â chysylltiadau pellach a'u hargymell, a lansiwyd ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol ar 21 Chwefror 2022 fel rhan o'r cam allgymorth, gan gyflwyno Lleisiau Cymunedol Caerdydd fel @VoicesCardiff ar Twitter ac Instagram. Roedd y postiadau cyntaf yn gwahodd cynigion ar gyfer gweithgareddau ar gyfer y pedair thema.

Mae gan **@VoicesCardiff** 304 o ddilynwyr ar Twitter ac mae wedi postio 155 o negeseuon trydar

Mae gan **voicescardiff** 322 o ddilynwyr ar Instagram ac mae wedi postio 54 o eitemau.









# Â phwy y gwnaethon ni gysylltu?




Roedd yr holl weithgareddau y bwriadwyd eu cynnal ym Mhafiliwn Grange wedi'u cynllunio i gyflawni amcanion CIO Pafiliwn Grange, sef:

> *Er mwyn datblygu trigolion Grangetown a'r gymdogaeth neu fod o fudd iddynt, waeth beth fo'u rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, hil neu farn wleidyddol, grefyddol neu farn arall drwy gysylltu'r trigolion dywededig a'r awdurdodau lleol, sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau eraill mewn ymdrech gyffredin i hyrwyddo addysg a darparu cyfleusterau er lles cymdeithasol ar gyfer hamdden a gweithgareddau amser hamdden gyda'r nod o wella amodau bywyd i'r preswylwyr.*
> *(Cyfansoddiad CIO Pafiliwn Grange)*

Arweiniodd y nod o sefydlu Ystafell Drefol sy'n canolbwyntio ar y gymdogaeth at ddull gweithredu seiliedig ar le, lle y cysylltwyd ag unigolion a sefydliadau gyda'r nod o gyrraedd pobl a'u cysylltu pobl â diddordebau, crefyddau, oedrannau ac ethnigrwydd amrywiol drwy dir cyffredin Pafiliwn Grange fel cyfleuster cymunedol.

Cysylltwyd â sefydliadau yn y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol cymunedol, busnesau lleol ac unigolion gyda'r nod o recriwtio ar gyfer pob wythnos thematig:

- o leiaf un unigolyn neu sefydliad sy'n lleol i Grangetown a'r ardaloedd cyfagos, fel preswylydd lleol sy'n arwain grŵp cymunedol neu fusnes annibynnol

- o leiaf un sefydliad sy'n gweithredu ledled Caerdydd, gan gynnwys gweithgareddau yn Grangetown a'r ardaloedd cyfagos neu gyda'r nod o gynyddu allgymorth yn yr ardal

- o leiaf un sefydliad sy'n gweithredu'n genedlaethol yng Nghymru / y DU, gan gynnwys gweithgareddau yn Grangetown a'r ardaloedd cyfagos neu gyda'r nod o gynyddu allgymorth yn yr ardal

Cysylltwyd â Chyngor Caerdydd drwy sawl adran, gan gynnwys yr holl gynghorwyr lleol, Aelodau'r Cabinet dros Dai, Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol, Pennaeth Cynllunio a chynrychiolwyr o'r Adran Adfywio a Datblygu; Cynllun Datblygu Lleol; a Dinas Cyfeillgar i Blant Caerdydd. Cysylltwyd â Llywodraeth Cymru drwy Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Roedd y sefydliadau y cysylltwyd â nhw yn cynnwys:

- **18 o sefydliadau wedi'u lleoli yn Grangetown neu ardaloedd cyfagos Glan yr Afon a Butetown**
- **45 o sefydliadau yn Ninas Caerdydd a De Cymru**
- **27 o sefydliadau cenedlaethol neu ryngwladol**

**Cysylltwyd yn uniongyrchol â chyfanswm o 90 o sefydliadau yn dilyn galwad gychwynnol i 800+ o gysylltiadau ar rwydweithiau a chyfryngau cymdeithasol presennol. Arweiniodd 23 o sefydliadau weithgareddau yn yr Ystafell Drefol, a chymerodd 62 ran yn un o weithgareddau Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn ystod yr Ystafell Drefol.**

# Myfyrdodau ar gynllunio ystafell drefol

## Beth bydden ni'n ei wneud yn wahanol? Cyfweliad â Rheolwr Partneriaethau Cymunedol Caerdydd, Mymuna.

**Sut gwnaethoch chi benderfynu â pha sefydliadau y byddech chi'n cysylltu yn y lle cyntaf a sut aethoch chi ati i wneud hynny?**
"Dechreuais gyda fy rhwydweithiau a oedd eisoes wedi'u sefydlu. Gwnaethon ni greu llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, a gwnes i ei rannu ar fy mhlatfformau personol fy hun a fy rhestr bostio fy hun. Yna roedd yn fater o bwy a gysylltodd â mi wedi hynny. Ni fyddwn yn dweud fy mod yn hidlo drwy bwy oedd yn gwneud y gwaith cywir neu pwy nad oedd yn gwneud hynny. Daeth pobl ymlaen a dweud, 'rydym yn frwdfrydig iawn dros hyn, rydym yn ymgynghori, mae hyn yn cyd-fynd yn dda â'r hyn rydym yn ei wneud."

**Beth oedd cymhelliant neu ddiddordeb sefydliadau i gynnal digwyddiad neu gymryd rhan?**
"Pwysleisiodd sefydliadau ddiddordeb mewn 'ymgynghori sy'n cael ei wneud yn wahanol. Eu profiadau nhw lawer o'r amser oedd: 'rydyn ni wedi bod yn gwneud yr un peth ers amser maith', 'mae'r un bobl wedi dod i'r ymgynghoriadau. ' Roeddent yn credu eu bod yn gwneud y peth iawn, yn ôl pob tebyg, ond roeddent hefyd yn ymwybodol iawn, hyd yn oed gyda llawer o gyllid i ymgysylltu, eu bod yn ei chael hi'n anodd perswadio pobl i ddod i ymgynghoriadau, a chafwyd sylwadau megis, 'mewn gwirionedd, rydym wedi rhoi cynnig ar yr holl dechnegau gwahanol hyn, ac rydym yn cyhoeddi gwybodaeth, ond nid oedd yn gweithio o hyd'. Felly mae'n fater o sicrhau bod y wybodaeth hon yn cyrraedd cynulleidfa ehangach."

**Pam gwnaethon ni ddechrau â Pharti Eid?**
"Os ymgynghorwyd â phobl yn y ffordd anghywir am amser hir iawn, maent wedi ymddieithrio'n fawr. Felly, mae'n ymwneud â meithrin y berthynas honno â phobl unigol, yn hytrach na dim ond dod i mewn gydag agenda a chlipfwrdd a llechen a gofyn 'allwch chi wneud hyn a'r llall'. Roedd fy mhrofiad bywyd wedi llywio fy null gweithredu, a dyna pam mae'n bwysig bod y bobl iawn yn gwneud hyn o'r dechrau. Meithrin y berthynas honno ar lefel bersonol sy'n bwysig, adnabod y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw a'u gwerthoedd, gwybod beth maen nhw'n sefyll drosto a beth maen nhw'n mwynhau ei wneud, a neilltu amser yn eich calendr i ganfod pa fwyd y mae pobl yn hoffi ei fwyta - nid dim ond darllen yr ystafell, ond adnabod y bobl ynddi.

Mae angen gwneud mwy na dim ond tynnu pobl i mewn a'u defnyddio. mae angen gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi hefyd. Er enghraifft: 'Mae parti Eid yn cael ei gynnal yma. Mae ein crefydd neu ein diwylliant yn bwysig i bobl. ' Ac yna gallwch ofyn: 'o, iawn, felly beth arall ydych chi'n ei wneud? ' Er mwyn i'r unigolyn deimlo ei fod yn cael ei drin fel bod dynol. Dyneiddiwch y dull gweithredu a sicrhau ei fod yn digwydd rhwng dau fod dynol yn hytrach na: 'dyma fi fel person sydd am gael gwybodaeth gennych chi, i'w thynnu' pan fydd hynny'n cael effaith eithaf negyddol ar bobl oherwydd eu bod wedi cael eu defnyddio a'u hecsbloetio am wybodaeth sydd wedi'i thynnu ohonynt cyhyd. Defnyddiwch yr un dull gweithredu ac yn amlwg rydw i'n mynd i gael yr un canlyniad. Dechreuwch drwy ofyn i mi yn gyntaf, gofyn i bobl beth sydd ei eisiau arnynt, yn hytrach na dod gyda'r hyn rydych chi'n meddwl sydd ei eisiau arnynt. Oherwydd fel arall, mae'n gwneud yn union yr hyn yr ydych yn ei ddweud nad ydych am ei wneud mwyach. Mae'n ymwneud â bod yn onest ynglŷn â pham rydych chi yno. Mae angen i'r gwaith gael ei wneud cyn y parti.

Mae'n rhaid i chi gael y cynllun tymor hir hwnnw, er mwyn i bobl deimlo y gallant ymddiried ynoch chi."


Community Voices Cardiff
invites you to our launch and
EID PARTY
TUESDAY 3rd May
GRANGE PAVILION
4pm-9pm
CCQOL
Pafiliwn Grange Pavilion
FREE HENNA- FOOD AND REFRESHMENTS- ENTERTAINMENT FOR CHILDREN






COMMUNITY VOICES CARDIFF






Mae Lleisiau Cymuned Caerdydd
yn eich gwahodd i'n lansiad a'n
PARTI EID
DYDD MAWRTH 3 Mai
PAFILIWN GRANGE
4pm-9pm
CCQOL
Pafiliwn Grange Pavilion
HENNA - BWYD A LLUNIAETH - ADLONIANT I BLANT - Y CYFAN YN RHAD AC AM DDIM

# 3. Rhedeg Ystafell Drefol cymdogaeth

Lansiwyd **Lleisiau Cymunedol Caerdydd** ar 3 Mai 2022 gyda pharti lansio Eid. Er mwyn rhannu gwybodaeth â phobl a oedd yn ymweld â'r parti, gwnaethom ddosbarthu pamffledi ag amserlen o weithgareddau, bathodynnau wedi'u personoli, cardiau post â manylion cyswllt a chod QR a chardiau teyrngarwch ar gyfer siop goffi Pafiliwn Grange, a gwnaethom arddangos posteri o amserlenni, gwybodaeth a map o Gaerdydd â Grangetown yn ei ganol. Dechreuodd y digwyddiad fis o weithgareddau.






















# COMMUNITY VOICES CARDIFF, GRANGE PAVILION (yellow room)

## COMMUNITY CONSULTATION FOR QUALITY OF LIFE (CCQOL) PROGRAMME OF EVENTS

| MONDAY | TUESDAY | WEDNESDAY | THURSDAY | FRIDAY | SATURDAY | SUNDAY |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **WEEK 1: HEALTH AND WELLBEING** | | | | | | |
| CCQOL | 3 COMMUNITY VOICES CARDIFF LAUNCH AND EID PARTY 4pm-9pm | 4 **10am-1pm** Health and Care Research Wales. Drop-in; **2pm-4pm** Four Winds Bookings only; **6pm-7.30pm** Sewing Club. Drop-in | 5 **10-11am** Spark Lab Bookings only; **11am-1pm** Drop-in; **1-2pm** Spark Lab Bookings only; **2-5pm** Drop-in | 6 **10am-2pm** Wellbeing and Shiatsu Massage; **3pm-6pm Food Fridays**; **6pm-8pm** Youth Forum Print making | 7 Grange Pavilion Youth Forum Eid-Al-Fitr celebration 2pm-8pm | 8 Closed - private booking; **3pm-6pm** Sef Cymru Homework Club Drop-in |
| **WEEK 2: HOUSING** | | | | | | |
| 9 **10am-5pm** Drop-in day | 10 **10am-12pm** Schools' Advisory Panel Closed session; **12pm-3pm** Drop-In; **3pm-5pm** Taff Housing Drop-in | 11 **10am-12pm** Community Gateway Closed session; **2pm-4pm** Four Winds Bookings only; **6pm-7.30pm** Sewing Club. Drop-in | 12 **10-11am** Spark Lab Bookings only; **11am-1pm** Drop-in; **1-2pm** Spark Lab Bookings only; **2-5pm** Drop-in | 13 **10am-1pm** CCHA Housing Association; **1-2pm** RSPB walk; **3pm-6pm Food Fridays**; **6pm-8pm** Youth Forum Print making | 14 Closed - Private booking | 15 Closed- private booking; **3pm-6pm** Sef Cymru Homework Club Drop-in |
| **WEEK 3: GREEN PLACES** | | | | | | |
| 16 **10am-3pm** Grangetown Place Rangers window sill growing workshop; **3pm-6pm** Mela Cymru and Urban Habitats workshop | 17 **09:30am -12pm** Royal Society of Architects in Wales Closed session; **12pm-5pm** Grange Pavilion design team - next steps workshop | 18 **2pm-4pm** Four Winds Bookings only; **6pm-7.30pm** Sewing Club | 19 **10-11am** Spark Lab Bookings only; **11am-1pm** Cardiff National Park City; **1-2pm** Spark Lab Bookings only; **2-4pm UNAM visit** | 20 **10am-3pm** Drop-in; **3pm-6pm Food Fridays** Drop-In | 21 **GRANGE PAVILION LAUNCH DAY 1000-1700 Free sports, music, dance, drama and stalls all welcome** | 22 Closed- private booking; **3pm-6pm** Sef Cymru Homework Club Drop-in |
| **WEEK 4: YOUNG VOICES** | | | | | | |
| 23 **10am-1pm** Cardiff Child Friendly City - school session; **1pm-4pm** Cardiff Youth Service Drop-in; **1-2.30pm** Grangetown Place Rangers school session | 24 **10am-1pm** Schools Sessions; **1pm-5pm** Drop-in | 25 **9am-1pm** Transport for Wales Drop-in; **1pm-4pm** Cardiff Youth Service Activity; **5pm-7pm** Youth Forum Cardiff Uni city planning workshop | 26 **10-11am** Spark Lab Bookings only; **11am-1pm** Drop-in; **2-3pm** CCQoL Advisory Closed session; **3-5pm** Drop-in | 27 **10am-3pm** Schools; **3pm-6pm Food Fridays** Cardiff Council Local Development plan; Cardiff Uni city planning; **6pm-7pm** Youth Forum: Wellbeing of Future Generations | 28 **10am-6pm** Grangetown Place Rangers Green Event | |



All sessions arranged by CCQOL are free.
(Sessions shown as [private bookings icon] are by other organisations and may have charges).
All activities and dates / times are subject to change.

For up-to-date calendars visit: https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
follow @VoicesCardiff, contact CommunityVoicesCardiff@cardiff.ac.uk
or ask Mymuna, Shoruk, Ruchit, Mhairi, Ali or Corey in the Grange Pavilion

Key: EVENT; DROP-IN; MEET AN ORGANISATION; ACTIVITY / WORKSHOP; PRIVATE BOOKINGS; GUIDED WALKS

Version 3 (16 May 2022)

# LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD, PAFILIWN GRANGE (ystafell felen)

## YMGYNGHORI CYMUNEDOL ER ANSAWDD BYWYDAU (CCQOL) - RHAGLEN O DDIGWYDDIADAU

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

CCQOL

| DYDD LLUN | DYDD MAWRTH | DYDD MERCHER | DYDD IAU | DYDD GWENER | DYDD SADWRN | DYDD SUL |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **WYTHNOS 1: IECHYD A LLES** | | | | | | |
| | 3<br>**LANSIO LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD A PHARTI EID**<br>**4pm-9pm** | 4<br>**10am-1pm** Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru. Galw heibio<br>**2pm-4pm** Archebion Pedwar Gwynt yn unig<br>**6pm-7.30pm** Clwb Gwnïo. Galw heibio | 5<br>**10-11am** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**11am-1pm** Galw heibio<br>**1-2pm** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**2-5pm** Galw heibio | 6<br>**10am-2pm** Tylino Lles a Shiatsu<br>**3pm-6pm Dydd Gwener Bwyd**<br>**6pm-8pm** Fforwm Ieuenctid ar gyfer Gwneud Argraffiadau | 7<br>Dathliad Eid-Al-Fitr gyda Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange<br>2pm-8pm | 8<br>ar gau - trefniad preifat<br>**3pm-6pm** Clwb Gwaith Cartref Sef Cymru Galw heibio |
| **WYTHNOS 2: TAI** | | | | | | |
| 9<br>**10am-5pm** Diwrnod Galw Heibio | 10<br>**10am-12pm** Panel Cynghori Ysgolion Sesiwn gaeedig<br>**12pm-3pm** Galw heibio<br>**3pm-5pm** Tai Taf Galw heibio | 11<br>**10am-12pm** Y Porth Cymunedol Sesiwn gaeedig<br>**2pm-4pm** Archebion Pedwar Gwynt yn unig<br>**6pm-7.30pm** Clwb Gwnïo. Galw heibio | 12<br>**10-11am** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**11am-1pm** Galw heibio<br>**1-2pm** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**2-5pm** Galw heibio | 13<br>**10am-1pm** Cymdeithas Tai CCHA<br>**1-2pm** Taith gerdded yr RSPB / **3-6pm Dydd Gwener Bwyd / 6-8pm** Fforwm Ieuenctid ar gyfer Gwneud Argraffiadau | 14<br>ar gau - trefniad preifat | 15<br>ar gau - trefniad preifat<br>**3pm-6pm** Clwb Gwaith Cartref Sef Cymru Galw heibio |
| **WYTHNOS 3: MANNAU GWYRDD** | | | | | | |
| 16<br>**10am-3pm** Gweithdy tyfu ar silffoedd ffenestr gyda Grangetown Place Rangers<br>**3pm-6pm** Gweithdy Mela Cymru a Chynefinoedd Trefol | 17<br>**09:30am -12pm** Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru Sesiwn gaeedig<br>**12pm-5pm** Tîm dylunio Pafiliwn Grange - gweithdy camau nesaf | 18<br>**2pm-4pm** Archebion Pedwar Gwynt yn unig<br>**6pm-7.30pm** Clwb Gwnïo. Galw heibio | 19<br>**10-11am** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**11am-1pm** Cardiff National Park City<br>**1-2pm** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**2-4pm** Ymweliad UNAM | 20<br>**10am-3pm** Galw heibio<br>**3pm-6pm Dydd Gwener Bwyd** | 21<br>**LANSIAD PAFILIWN GRANGE**<br>**Chwaraeon, cerddoriaeth, dawns, drama a stondinau am ddim croeso i bawb** | 22<br>ar gau - trefniad preifat<br>**3pm-6pm** Clwb Gwaith Cartref Sef Cymru Galw heibio |
| **WYTHNOS 4: LLEISIAU IFANC** | | | | | | |
| 23<br>**10am-1pm** Dinas Sy'n Dda i Blant Caerdydd - sesiwn ysgol<br>**1pm-4pm** Galw Heibio i Wasanaeth Ieuenctid Caerdydd<br>**1-2.30pm** Sesiwn ysgol Grangetown Place Rangers | 24<br>**10am-1pm** Sesiynau Ysgolion<br>**1pm-5pm** Galw heibio | 25<br>**9am-1pm** Trafnidiaeth Cymru<br>**1-4pm** Gweithgaredd Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd<br>**5-7pm** Gweithdy cynllunio dinas Fforwm Ieuenctid Prifysgol Caerdydd | 26<br>**10-11am** Archebion Labordy Sbâr yn unig<br>**11am-1pm** Galw heibio<br>**2-3pm** Cyngor CCQoL Sesiwn gaeedig<br>**3-5pm** Galw heibio | 27<br>**10am-3pm** Ysgolion<br>**3-6pm Dydd Gwener Bwyd /** Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd Cynllunio Prifysgol / Caerdydd<br>**6-7pm** Fforwm Ieuenctid: Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 28<br>**10am-6pm** Digwyddiad Gwyrdd Grangetown Place Rangers | |

Mae'r holl sesiynau a drefnir gan CCQOL am ddim.
(Cynhelir y sesiynau a ddangosir fel [trefniad preifat] gan sefydliadau eraill ac efallai y bydd angen talu amdanyn nhw).
Gall yr holl weithgareddau a dyddiadau / amseroedd newid. I weld y calendrau diweddaraf ewch i: https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
dilynwch @VoicesCardiff neu ebostio CommunityVoicesCardiff@caerdydd.ac.uk
neu gofynnwch i Mymuna, Shoruk, Ruchit, Mhairi, Ali neu Corey ym Pafiliwn Grange

DIGWYDDIAD
GALW HEIBIO
CWRDD Â SEFYDLIAD
GWEITHGAREDD / GWEITHDY
TREFNIAD PREIFAT
TEITHIAU CERDDED WEDI'U TYWYS

FERSIWN 3 (16/5/2022)

## Health and Care Research Wales
**Wednesday 4 May 10am-1pm**
**Yellow room, Grange Pavilion**

Health and Care Research Wales is a networked organisation, supported by Welsh Government, which brings together a wide range of partners across the NHS in Wales, local authorities, universities, research institutions, third sector and others.

We work together to promote research into diseases, treatments, services, and outcomes that can lead to discoveries and improvements which can improve and even save people's lives.




**Come and meet us on Wednesday 4 May to learn more about health and social care research in Wales.**
You will learn about the health and care research that is happening every day in Wales. and how people taking part in research projects are helping researchers develop studies which can really make a different to everyone's treatment and care.

This drop-in session will invite you to share your views and opinions on how we can be more inclusive, helping us to identify alternative approaches and changing the way people can help with research.

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
COMMUNITY VOICES CARDIFF
CCQOL
MAY 3 - MAY 28 2022
https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
@VoicesCardiff

## Shiatsu Taster and Wellbeing Workshop
**Friday 6 May 10am-2pm**
**Yellow room, Grange Pavilion**



### SHIATSU TASTER SESSIONS AND WELLBEING WORKSHOP
MAY 6TH 10am-2pm

Shiatsu Cardiff is a well-being organisation offering private practice Shiatsu, seated sessions in the workplace and at events, for residents in care homes and wellbeing workshops for charities and organisations. We also run a foundation level training course in Cardiff.

We have worked in the NHS, with mental health charities, substance misuse programmes, with carers, single parents groups and Cardiff council.

We are a socially-minded organisation committed to making our services accessible and inclusive. As part of the community consultation project, we want to meet you and find out how we can support you with our services. We believe that the kind of well-being support we can offer should be available to all alongside traditional health services. We will be offering short seated Shiatsu sessions and a workshop where you can learn a self-massage technique, Shiatsu stretches, breath work and relaxation.





LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
COMMUNITY VOICES CARDIFF
CCQOL
MAY 3 - MAY 28 2022
https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
@VoicesCardiff

## Taff Housing Drop-In
**Tuesday 10 May 3pm-5pm**
**Yellow room, Grange Pavilion**

### Taff Housing Pop Up
Grangetown Pavilion, Grange Gardens, Cardiff CF11 7LJ

Tuesday 10th May 3-5pm

An opportunity to talk with various Taff staff including:
- Grangetown Neighbourhood Officer Sarah
- A member of the Repairs Team
- Grangetown Income Officer Phil
- Community Inclusion Team- Money Advisor, Tenancy Support Coach

We will also be joined by:
- Wales Illegal Money Lending Unit
- C3SC- offering support into work/training

All Tenants will recieve a free hot drinks voucher

Got a bike? Bring it along and Dr Bike will service it, free of charge

TAFF

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
COMMUNITY VOICES CARDIFF
CCQOL
MAY 3 - MAY 28 2022
https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
@VoicesCardiff

## CCHA Cardiff Community Housing Association
**Friday 13 May 10am-1pm**
**Yellow room, Grange Pavilion, Grange Gardens CF11 7LJ**



### YOUR VOICE FOR YOUR CITY
The cost of living is rising.
We want to hear how it's affecting you.

**YOU TALK. WE LISTEN.**
We want to support you and your communities in the right way by developing services that meet your needs. We can only do that with your help.

**FRIDAY 13TH MAY**
**GRANGETOWN PAVILLION**

**ENTER OUR PRIZE DRAW!**
By sharing your opinion with us, you'll be entered into a prize draw to win a brand new Air Fryer and a £10 Asda voucher!

ccha
CCHA provide a variety of homes within Cardiff. We are passionate about working with communities to transform neighbourhoods into spaces where people can thrive.

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
COMMUNITY VOICES CARDIFF
CCQOL
MAY 3 - MAY 28 2022
https://communityvoicescardiff.commonplace.is/
@VoicesCardiff

**RSPB (Royal Society for the Protection of Birds)**
**Grangetown Nature Walk on Friday 13 May 1pm-2pm**
Grange Pavilion, Grange Gardens, CF11 7LJ

rspb Cymru — yn rhoi cartref i fyd natur | giving nature a home

**Neighbourhood walk with RSPB Cymru**
**(Royal Society for the Protection of Birds)**

**Friday 13 May**

Meet at Grange Pavilion by the RSPB banner at 1pm, returning at 2pm

Do you love to hear the birds sing? Does the river make you feel happy? Do you wish there was more space for gardens?

We'd love to hear what matters to you most as we take a short nature walk through the neighbourhood

No booking required




CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD | LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD COMMUNITY VOICES CARDIFF | CCQOL | MAY 3 - MAY 28 2022 https://communityvoicescardiff.commonplace.is/ @VoicesCardiff

## Design your own park!
**Monday 16 May 3pm-6pm**
Yellow room, Grange Pavilion

## Design your own Park!

**A co-design session looking to explore creative ideas from the community in Grangetown, Monday 16 May 3-6pm Grange Pavilion.**

**If you could design your own park, what would it look like?**
**Aisha and Mark welcome you to share your ideas on how to make the perfect green space in your neighbourhood.**

**a free drop-in session with Mela Cymru and Urban Habitat**



CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD | LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD COMMUNITY VOICES CARDIFF | CCQOL | MAY 3 - MAY 28 2022 https://communityvoicescardiff.commonplace.is/ @VoicesCardiff

## Cardiff National Park City
**Thursday 19 May 11am-1pm**
Yellow room, Grange Pavilion




CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD | LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD COMMUNITY VOICES CARDIFF | CCQOL | MAY 3 - MAY 28 2022 https://communityvoicescardiff.commonplace.is/ @VoicesCardiff

## Transport for Wales drop in session
**Wednesday 25 May 9am-1pm**
Yellow room, Grange Pavilion

TRAFNIDIAETH CYMRU TRANSPORT FOR WALES

# TALKING TRANSPORT

**Are you passionate about public transport in your community and how it can improve access to leisure and employment?**

Hear about good practice and applying the involvement principle in transport projects

Learn about our new community consultation toolkit, Talking Transport

Share your ideas on the future of Cardiff's public transport




CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD | LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD COMMUNITY VOICES CARDIFF | CCQOL | MAY 3 - MAY 28 2022 https://communityvoicescardiff.commonplace.is/ @VoicesCardiff

## Cardiff Youth Service
**Mon 23 and Wed 25 May, 1pm-4pm**
Yellow room, Grange Pavilion






## CircuPLAY & DISCOVER Workshop
Saturday 28 May 10am-4pm
Urban room, Grange Pavilion




**Do you live in Grangetown? Are you interested in how to make your city a better place to live? Do you like to play games?**

**Come to the CircuPLAY & DISCOVER workshop and take part at one of the game sessions to discover ways for making your city a better place to live.**

**Spaces for playing are limited; so, book your place in advance in one of the following game sessions via Eventbrite (link: *https://www.eventbrite.co.uk/e/circuplay-discover-workshop-tickets-338197607147*)**
1) **game session 1 (10am-12pm)**
2) **game session 2 (12pm-2pm)**
3) **game session 3 (2pm-4pm)**

**Otherwise come and book an available space on the day of the event.**

**Snacks and drinks will be provided.**

**For more information about the game, click the link below:**
*https://marie-sklodowska-curie-actions.ec.europa.eu/science-is-wonderful/activities/build-the-circular-economy*
**For additional information, contact Marianna Marchesi**
(email: *marchesim@cardiff.ac.uk*)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Higher Education Funding Council for Wales hefcw

**Innovation for All**
CircuPLAY project



## Design a child-friendly Grangetown after school drop in session
**Friday 27 May 3pm-6pm**

### Have your say on a child-friendly COVID recovery plan for Grangetown

**27th May Friday, 3:00-6:00 pm**
**Grange Pavilion**

Are you a child aged 8-17 living in Grangetown?
Are you interested in designing, planning, crafting, drawing, making things or writing about them?

We invite you to a drop-in session on the theme 'a child friendly recovery plan for Grangetown' which will be held on the 27th May Friday 3 pm- 6 pm at Grange Pavilion. This will be a unique opportunity to exercise your rights as a child expressing your thoughts on the neighbourhood you live in.

Share your ideas for building a greener, fairer and child friendly Grangetown through some fun activities.

A free drop-in session to work with a team of an architect, an urban designer, a planner and a human geographer from Cardiff University.





## GRANGE PAVILION YOUTH FORUM
**planning a child-friendly Grangetown**
**Wednesday 26 May 6pm-8pm**



## Cardiff Council Local Development Plan

**Drop in 3-6pm, workshop 5-6pm on Friday 27 May**

**Grange Pavilion**


Local Development Plan 2021 > 2036

May 2022

**Shaping Cardiff's future - have your say**

**We are preparing a new Local Development Plan (LDP) for Cardiff to replace the existing LDP. The new plan will be called the Cardiff Replacement Local Development Plan (LDP).**

The Replacement LDP will help shape Cardiff for the next 15 years to 2036 ensuring the right development happens in the right place at the right time, benefitting communities and the economy and setting out which areas need to be protected.

**If you would like to find out more come along to our drop in session at the Urban Room Grangetown Pavillion between 3.00pm and 6.00pm on Friday 27th May 2022.**

Anyone can sign up to hear about future consultations by completing our online form at www.cardiffldp.co.uk or email the LDP Team at LDP@cardiff.gov.uk

There are many stages in preparing a Local Development Plan as set out below.

- The Council and Welsh Government agree the Delivery Agreement - March 2021
- Consultation on draft vision/issues/objectives & draft Integrated Sustainability Appraisal and Call for Candidate Sites - 2021
- Informal Consultation on strategic Options
- **WE ARE HERE** **Preparing the Preferred Strategy May > December 2022**
- **Statutory Consultation on Preferred Strategy** January 2023
- **Statutory Consultation on Deposit Plan** October 2023
- **Submission for Examination** March 2024
- **Examination** March > September 2024
- **Inspectors Report** September 2024
- **Adoption by Council** October 2024



## Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Caerdydd

**Galw heibio 3-6pm, gweithdy 5-6pm ddydd Gwener 27 Mai**

**Pafiliwn Grange**


Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Mai 2022

**Siapio Dyfodol Caerdydd – Dywedwch eich dweud**

**Rydym yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd ar gyfer Caerdydd i gymryd lle'r CDLl presennol. Enw'r cynllun newydd fydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Newydd Caerdydd.**

Bydd y CDLl Newydd yn siapio Caerdydd am y 15 mlynedd nesaf hyd at 2036, gan sicrhau bod y datblygiad cywir yn digwydd yn y lle cywir ar yr adeg gywir, yn dod â manteision i gymunedau a'r economi ac yn nodi pa ardaloedd mae angen eu diogelu.

**Os hoffech wybod mwy dewch i'n sesiwn galw heibio yn yr Ystafell Drefol Grangetown Rhwng 3.00pm a 6.00pm ddydd Gwener 27 Mai 2022.**

Gall unrhyw un gofrestru i glywed am ymgynghoriadau yn y dyfodol drwy lenwi ein ffurflen ar-lein yn www.cdllcaerdydd.co.uk neu drwy e-bostio tîm y CDLl yn CDLl@caerdydd.gov.uk

Mae llawer o gamau ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol fel y nodir isod.

- Llywodraeth Cymru yn cytuno ar Gytundeb Cyflawni - 30 Mawrth 2021
- Ymgynghoriad anffurfiol ar weledigaeth ddrafft/materion/amcanion ac Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig drafft a Galwad am Safleoedd Ymgeisiol - 2021
- Ymgynghoriad Anffurfiol ar Opsiynau Strategol Drafft
- **RYDYM YMA** **Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir Mai > Rhagfyr 2022**
- **Ymgynghoriad Statudol ar y Strategaeth a Ffefrir** Ionawr 2023
- **Ymgynghoriad Statudol ar y Cynllun Adneuo** Hydref 2023
- **Cyflwyno ar gyfer Arolygiad** Mawrth 2024
- **Arolygiad** Mawrth > Medi 2024
- **Adroddiad Arolygwyr** Medi 2024
- **Mabwysiadu gan y Cyngor** Hydref 2024



## Wellbeing of Future Generations
## Grange Pavilion Youth Forum session

Yellow room, Grange Pavilion, Friday 27 May 6-7pm



**What does the Wellbeing of Future Generations mean to you?**

**27th May, 6-7pm**
**Office of the Future Generations Commissioner meets Grangetown Youth Forum**

Come along to chat about how Wales can build a better future for your community and people not born yet!



Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales



## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
## Sesiwn Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange

**Ystafell felen, Pafiliwn Grange, Dydd Gwener 7 Mai, 6-7pm**



**Beth mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei olygu i chi?**

**27 Mai, 6-7 y nos**
**Swyddfa y Comisiwnydd Cenedlauthau'r Dyfodol yn cwrdd gyda Fforwm Ieuenctid Grangetown**

Dewch draw i sgwrsio am sut y gall Cymru wneud dyfodol gwell i'n cymuned a phobl sydd heb eu geni eto!



Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru
**Future Generations** Commissioner for Wales

LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

COMMUNITY VOICES CARDIFF

*#CONSULTATIONDONEDIFFERENTLY*

# Llinell amser ystafell drefol

## Wythnos 1: Iechyd a Lles



3rd May- Preparations



3rd May- Launch Eid party

400/500 footfall. All ages and diverse groups.



6th May- Shiatsu massage

Huge success and all slots filled quick.



4th May-Health and Care Research Wales



6th May- Food Friday

Pizza, surveys and chats!



Drop in sessions-

Materials on standby- colours, postcards, badges, stickers, beanbags, books, whiteboards..



6th May- Shiatsu massage

Session with Grange Pavilion Youth Forum

## Parti Eid

I gyd-fynd â diwedd Ramadan, lansiwyd Lleisiau Cymunedol Caerdydd gyda pharti Eid. Rhannodd tua 300 o bobl (amcangyfrif o gyfrif pennau) fwyd a ddarparwyd gan fusnesau lleol, cynhaliwyd gweithgareddau chwaraeon plant a drefnwyd gan gwmnïau newydd lleol a gweithgareddau crefft a chafwyd sgyrsiau yn cyflwyno Ystafell Drefol Lleisiau Cymunedol Caerdydd a digwyddiadau sydd i ddod. Lansiwyd gwefan Lleisiau Cymunedol Caerdydd gyda'r digwyddiad, gan gychwyn y map digidol o Gaerdydd yn ogystal â'r ystafell drefol ffisegol.



## Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Cynhaliodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru sesiwn galw heibio i rannu sut y gall aelodau'r gymuned helpu gydag ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, o gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil i helpu ymchwilwyr i ddatblygu astudiaethau fel y gall wneud gwahaniaeth gwirioneddol i driniaeth a gofal pawb. Nod y sefydliad ar gyfer y sesiwn oedd dysgu sut y gallai ei ddull gweithredu fod yn fwy cynhwysol drwy nodi dulliau gweithredu amgen a newid y ffordd y gall pobl helpu gydag ymchwil.




## Tylino Shiatsu

Lansiwyd yr ystafell drefol gyda ffocws ar Iechyd a Lles drwy gynnig sesiynau blasu tylino Shiatsu am ddim, gan hyrwyddo'r ymarferydd lleol Sarah Hall, sy'n 'frwdfrydig dros ddarparu shiatsu i grwpiau o bobl nad ydynt, o bosibl, wedi'i fwynhau o'r blaen, yn y gweithle ac ar un o safleoedd y GIG'. Roedd y sesiynau, a oedd yn llawn, yn cynnig cyfle i brofi diddordeb mewn sesiynau tylino ym Mhafiliwn Grange chyflwyno Lleisiau Cymunedol Caerdydd i gynulleidfa ehangach.




## Dydd Gwener Bwyd a'r Fforwm Ieuenctid

Cynigiodd Lleisiau Cymunedol Caerdydd sesiwn galw heibio wythnosol, sef Dydd Gwener Bwyd, gyda bwyd yn cael ei ddarparu gan fusnesau lleol ar adeg amser casglu plant o'r ysgol er mwyn annog sgyrsiau 'galw heibio'. Roedd Dydd Gwener Bwyd hefyd yn cynnwys sesiynau gwneud printiau gyda Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange, a gynhaliwyd gan Lysgennad myfyrwyr Shoruk Nekeb. Roedd y sesiynau eistedd i lawr tawelach a mwy penodol hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer sgyrsiau ac amser i brofi'r gwaith mapio digidol a'r arolwg gyda phobl a chael adborth arnynt.



LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

COMMUNITY VOICES CARDIFF

#CONSULTATIONDONEDIFFERENTLY

# Llinell amser ystafell drefol

## Wythnos 2: Tai



9th May- Drop in session



10th May- Taff Housing



12th May- Drop in session



13th May- CCHA



13th May- Food Friday



13th May- Print making

## Sesiynau Ymgynghori Ysgolion Grangetown

Cynhaliwyd Lleisiau Cymunedol Caerdydd mewn partneriaeth â Phorth Cymunedol Prifysgol Caerdydd, a oedd yn cynnal Sesiynau Cynghori chwarterol i Ysgolion Grangetown, gan ddod â chynrychiolwyr ynghyd o holl ysgolion a cholegau meithrin, cynradd, uwchradd ac Addysg Bellach dalgylch yr ardal. Cynhaliwyd un o sesiynau Lleisiau Cymunedol Caerdydd i gynllunio sut y gallai disgyblion ysgolion lleol fod yn rhan o'r bedwaredd wythnos o weithgareddau'r Ystafell Drefol yn ystod wythnos Lleisiau Ifanc.



## Cymdeithas Tai Taf

Mae Cymdeithas Tai Taf yn berchen ar 1500 o gartrefi ledled Caerdydd ac yn eu rheoli, gan roi cartrefi i dros 4000 o bobl. Roedd ei sesiwn yn yr Ystafell Drefol yn cynnig cyfle i Denantiaid Taf gyfarfod â Swyddog Tai Grangetown Taf, Swyddog Rhenti Grangetown, Ymgynghorydd Arian, Rheolwr Cynnal a Chadw, a Rheolwr Cymunedol, aelod o'r tîm benthyca arian anghyfreithlon, a chynrychiolydd o'r Trydydd Sector yng Nghaerdydd a oedd yn hyrwyddo rhaglen i mewn i waith/hyfforddiant, a chymryd rhan mewn gweithdy 'Dr Bike'.



## CCHA

Cynhaliodd Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd sesiwn galw heibio a oedd yn canolbwyntio ar gostau byw cynyddol, gyda chynrychiolwyr y sefydliad ar gael i siarad wyneb yn wyneb â Thenantiaid. Nod y sesiwn oedd cefnogi tenantiaid ac aelodau o'r gymuned leol drwy ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu eu hanghenion.  Fel gyda rhai o'r sesiynau eraill a gynhaliwyd yn yr ystafell drefol, ymdriniwyd â phynciau sensitif ac ni chysylltodd tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn uniongyrchol ag ymwelwyr ar gyfer arolygon na sgyrsiau.




## RSPB Cymru

Cynhaliodd y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar Cymru daith gerdded 'cartrefi ar gyfer natur' drwy'r gymdogaeth, gan gynnwys afonydd, parc, celf drefol, a safleoedd tir llwyd. Nod y sesiwn oedd nodi - 'heb glipfwrdd' - yr hyn y mae pobl yn ei feddwl a'i deimlo am eu hamgylchedd a beth mae natur yn ei olygu iddyn nhw. Dywedodd yr RSPB eu bod wedi cael 'prynhawn gwych yn sgwrsio â phobl am Natur yn y Gymdogaeth - buom yn cerdded o amgylch strydoedd, alïau, glannau afonydd a dolydd a'r holl ddarnau rhyngddynt ac yn siarad amdanyn nhw! '



LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD

COMMUNITY VOICES CARDIFF

*#CONSULTATIONDONEDIFFERENTLY*

# Llinell amser ystafell drefol

## Wythnos 3: Mannau gwyrdd



16th May- Windowsill Growing
Workshop with Grangetown Rangers to grow salad



16th May- Design your park
Mela Cymru and Urban Habitats after school session



19th May- Cardiff National Park City drop in



Somewhere along the timeline



20th May- Food Friday



17th May- Royal Society of Architects in Wales Language session



21st May- Grange Pavilion Launch

URBAN HABITATS

## Dyluniwch eich Parc eich hun

Ymunodd Mark Drane o Urban Habitats ag Aisha Ali o CDF Planning i gynnal sesiwn galw heibio ar ôl ysgol, sef 'Dyluniwch eich Parc eich hun', a oedd yn addas i blant. Ymunodd tua 25 o blant ac oedolion â'r sesiwn a chymryd rhan mewn trafodaethau am eu rôl wrth wneud penderfyniadau ynghylch mannau gwyrdd trefol yn y dyfodol. 'Heb yr Ystafell Drefol ni fyddem wedi cael cynulleidfa/grŵp mor barod i weithio gyda nhw', meddai'r trefnwyr, gan nodi bod y sesiwn wedi cefnogi syniadau pellach er mwyn i'r practisau barhau i gydweithio.



## Gweithdy Iaith RSAW

Un o'r nodau a bennwyd gan dîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd oedd rhannu arferion da a herio rhagdybiaethau ynghylch dulliau ymgynghori.  Gwnaeth gweithdy gyda Chymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru ddwyn ynghyd ymarferwyr ac addysgwyr ym maes yr amgylchedd adeiledig sy'n ymwneud â dylunio a chynnal ymgynghoriadau, er mwyn ystyried bwriadau a goblygiadau geiriau a ddefnyddir mewn prosesau ymgynghori (gweler tudalen 52 am gardiau post iaith a ddefnyddiwyd yn y gweithdy).



## Dinas Parc Cenedlaethol Caerdydd

Cynhaliodd Dinas Parc Cenedlaethol Caerdydd, mudiad sy'n cael ei bweru gan bobl ar gyfer dinas decach, fwy gwyllt, wyrddach ac iachach, weithdy 'rhannwch eich hoff deithiau cerdded gwyrdd'.  Cyfarfu tua 13 o bobl i grwydro ar hyd coridorau gwyrdd, mapio teithiau cerdded newydd, a rhannu gwybodaeth am fannau gwyrdd a lleoedd mewn gwahanol gymdogaethau. Meddai'r trefnwyr, 'Roedd yn ddigwyddiad gwych, sgyrsiau hyfryd iawn, a deilliodd rhai syniadau newydd ohono. Os gwnewch unrhyw beth fel hyn eto, rhowch wybod i ni, byddem wrth ein bodd yn cymryd rhan.'



## Lansio Pafiliwn Grange

Amserwyd Ystafell Drefol Caerdydd i gyd-ddigwydd â lansiad ffurfiol Pafiliwn Grange fel cyfleuster dan arweiniad y gymuned. Daeth dathliad a barodd drwy'r dydd â mwy na 1000 o bobl drwy'r drysau i ddathlu'r datblygiad cymunedol hwn. Roedd tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd mewn rhan o'r Pafiliwn a oedd wedi'i neilltuo ar gyfer stondinau marchnad, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o Gyngor Caerdydd, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru ac ymchwilwyr partner.




LLEISIAU CYMUNEDOL CAERDYDD
COMMUNITY VOICES CARDIFF
#CONSULTATIONDONEDIFFERENTLY
Llinell amser ystafell drefol
Wythnos 4: Lleisiau Ifanc
23rd May- Grangetown Place Rangers school session
23rd May- Cardiff Child Friendly City school session
25th May- Child Friendly COVID Recovery Plan
School of Geography and planning hosted 3 local schools in the urban room
24th May- Drop in and schools
27th May- Well-being of Future Generations with Youth Forum
27th May- Cardiff Council Local Development Planners session
28th May- Grangetown Annual Green Event
That's a wrap!
CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD
Youth Forum

## Gwasanaethau Ieuenctid Caerdydd

Cynhaliodd Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd ddwy sesiwn dros dro er mwyn adeiladu ar ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd yn dilyn pandemig Covid-19 gyda phobl ifanc ledled Caerdydd.  Cafodd y tîm cynnwys gweithredol sgyrsiau â phobl a oedd yn defnyddio Pafiliwn Grange, er mwyn gofyn i bobl ifanc nodi pa ddulliau y dylid eu defnyddio er mwyn ymgynghori â nhw. Esgorodd sgyrsiau ar argymhellion ynghylch rhwystrau ieithyddol, meddu ar wybodaeth flaenorol o'r gymuned, cynnig dulliau ymgynghori amrywiol a bod yn barod i addasu er mwyn diwallu anghenion amrywiol.

CARDIFF YOUTH SERVICE GWASANAETH IEUENCTID CAERDYDD

## Cyngor Caerdydd

Cynhaliodd y tîm Cynllunio, Adfywio a Datblygu a thîm y Cynllun Datblygu Lleol yng Nghyngor Caerdydd stondin yn ystod lansiad Pafiliwn Grange, a sesiwn sgwrsio lle roedd pobl yn cael eu gwahodd i rannu eu barn ar ymgynghoriadau cynllunio cynhwysol. Nododd tîm y Cyngor fod y sesiynau wedi creu cysylltiadau defnyddiol iawn â'r gymuned leol a fydd yn ein galluogi i barhau i ymgysylltu â nhw wrth baratoi'r CDLl Newydd ac ar faterion eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio.



## Grangetown sy'n dda i blant

Cynhaliodd Matluba Khan, Tom Smith, Neil Harris a Shoruk Nekeb o Brifysgol Caerdydd a Dinas sy'n Dda i Blant Cyngor Caerdydd weithdai drwy gydol yr wythnos fel ymweliadau ag ysgolion a sesiynau galw heibio, gyda'r nod o gynnwys lleisiau plant a phobl ifanc wrth ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau cynllunio ac ailddatblygu. Nododd y tîm fod yr ystafell drefol yn ei alluogi i gynnwys plant a phobl ifanc yn gyflym yn y broses o gyd-asesu eu cymdogaeth.



## Cenedlaethau'r Dyfodol

Cynhaliodd Swyddfa Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol stondin yn lansiad Pafiliwn Grange, a dychwelyd i gyfarfod â Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange i gynnal trafodaeth ynghylch Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol: beth ydyw, pam mae'n berthnasol, a sut y gellir ei defnyddio i ddwyn penderfynwyr i gyfrif. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar egwyddor 'cynnwys' yn y ddeddf, a sut y gall pobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau cynllunio lleol ynghylch yr ardaloedd lle maent yn byw.



Pafiliwn Grange Pavilion

CARDIFF CAERDYDD

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

YOUTH FORUM

TAFF

ccha
Cardiff Community Housing Association
Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd

Child Friendly CARDIFF
CAERDYDD Sy'n Dda i Blant

CDF planning

Ysgol Hamadryad

Grangetown Primary School 1884

RSAW
Architecture.com/wales

Ninian Park Primary School
Enjoy · Respect · Achieve

RSPB CYMRU

URBAN HABITATS
thinking | strategy | making

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

CARDIFF YOUTH SERVICE
GWASANAETH IEUENCTID CAERDYDD

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

## Circuplay

Mae Circuplay yn gynnig ymchwil i ddatblygu 'platfform chwareus' o gemau rhyngweithiol er mwyn meithrin gwybodaeth gymunedol am gysyniadau ac arferion economi gylchol a chefnogir broses o newid i gymuned cylchol.  Arweiniwyd sesiwn yn ystod diwrnod digwyddiadau cyhoeddus y 'Green Rangers' gan Marianna Marchesi o Brifysgol Caerdydd, a daeth â grŵp o gyfranogwyr at ei gilydd i brofi sut y gallai gêm gardiau gyflwyno economi gylchol i oedolion a phobl ifanc.




## Trafnidiaeth Cymru

Cynhaliodd Trafnidiaeth Cymru sesiwn er mwyn cyflwyno ei 'Phecyn Cymorth Trafod Trafnidiaeth' sydd â'r nod o ymgysylltu â sefydliadau a chymunedau ar lawr gwlad er mwyn casglu syniadau, argraffiadau a safbwyntiau ar bynciau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn eu hardal.  Treialodd y gweithdy gydag 8 cyfranogwr y pecyn cymorth a chasglu adborth arno.



## Grangetown Green Rangers

Roedd 'Grangetown Green Rangers' yn brosiect a ariannwyd gan Adfywio Cymunedol a oedd yn cyflogi dau 'Grangetown Place Ranger' a thri phrentis, gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o fentrau gwyrddu ardal leol a chysylltiadau rhyngddynt. Cynhaliodd y 'Place Rangers' weithdy silff ffenestr a sesiwn i ysgolion yn ystod yr Ystafell Drefol yn ogystal â gweithdy Circuplay fel digwyddiad terfynol CCQol olaf fel rhan o ddigwyddiad Gwyrdd ym Mhafiliwn Grange.



## Sesiynau rheolaidd

Roedd lleoliad yr Ystafell Drefol mewn cyfleuster cymunedol prysur yn golygu bod y gweithgareddau wedi'u trefnu o amgylch sesiynau rheolaidd a oedd eisoes yn cael eu cynnal ym Mhafiliwn Grange.  Diolch yn fawr i'r elusen iechyd meddwl 4Winds, yr elusen addysg Sef-Cymru, clwb gwnïo Pafiliwn Grange a'r darparwyr addysg wyddonol i blant, Spark Lab, am gefnogi a hyrwyddo Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn ystod mis yr Ystafell Drefol.

4Winds
A Mental Health Resource Service For Cardiff And The Vale

SEF CYMRU

SparkLab

**4**
wythnos

cynlluniwyd
**19**
o sesiynau
gan CCQol

cysylltwyd â
**90**
o sefydliadau

**42**
o weithgareddau

arweiniwyd
gweithgareddau
gan
**25**
o sefydliadau

ymwelodd
o leiaf
**1000**
o bobl
â'r ystafell drefol

cymerodd
**18**
o sefydliadau ran

cymerodd
**45**
o sefydliadau
rhanbarthol ran

cymerodd
**27**
o sefydliadau c
enedlaethol ran

**494**
o gyfraniadau
ar-lein

**321**
o binnau
ar fapiau

**167**
o arolygon
cyfranogi ar-lein

# 4. Myfyrdodau a'r hyn a ddysgwyd

**Myfyrdodau gan bobl a arweiniodd weithgareddau fel rhan o Lleisiau Cymunedol Caerdydd**

### A yw cymryd rhan yn Lleisiau Cymunedol Caerdydd wedi newid y ffordd rydych chi'n meddwl am ymgynghoriadau? Neu ymgynghoriadau cynllunio?

"Yn bendant, mae wedi cyfrannu at y ffordd y gwnaethom gynllunio ymgynghoriadau."

"Dim llawer, ond mae hynny oherwydd fy mod eisoes yn dod o gyfeiriad tebyg i'r prosiect o ran ymgynghori sy'n cael ei wneud yn wahanol. "

"Ie, yn fawr iawn. Ac mae wedi newid y ffordd rwy'n trafod ymgynghoriadau â grwpiau ehangach o bobl, gan herio eu dulliau ymgynghori yn fwy."

### Beth rydych chi wedi'i ddysgu o'ch cyfranogiad yn Lleisiau Cymunedol Caerdydd (os ydych wedi dysgu unrhyw beth o gwbl)?

"Yn bendant, ni ddylai hyn fod yn ddigwyddiad untro a dylid ei gynnal yn rheolaidd fel ffordd o fwydo'n ôl i'r gymuned hefyd."

"Roedd cymryd rhan yn y prosiect hwn yn ddefnyddiol iawn ac yn sicr mae'n tanlinellu'r angen i ymgysylltu'n uniongyrchol ar lawr gwlad er mwyn esbonio'r broses o baratoi'r cynllun a chlywed beth sy'n bwysig i bobl yn y gymuned leol a bwydo'r rhain i mewn i'r broses o baratoi'r cynllun."

"Ar y dechrau roedd yn ymddangos bod bwlch rhwng rhai o'r dulliau arfaethedig (arolygon/dulliau ar-lein) a i) yr agwedd at wybodaeth gymunedol o ran gwerthoedd Lleisiau Cymunedol Caerdydd (a oedd yn cefnogi perchnogaeth gymunedol o wybodaeth yn fawr) a ii) rhywfaint o'r arbenigedd a'r wybodaeth yn lleol gan gynnwys yn nhîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd - h.y. yn fedrus iawn mewn dulliau mwy agored, casgliadol o ymgysylltu a chreu gwybodaeth. Roedd hyn yn glir i mi o'r cychwyn cyntaf ac mae'n bosibl iddo greu rhai heriau yn ystod y prosiect - gobeithio y gall dysgu gwerthfawr ddeillio o hyn."

### A oes unrhyw wahaniaeth yn eich cydberthnasau â phobl eraill yn yr ardal? Ydych chi'n adnabod mwy o bobl nag yr oeddech chi o'r blaen? Ydych chi'n adnabod gwahanol fathau o bobl yn sgil y prosiect?

"Mae wedi agor rhwydwaith na fyddai wedi bod yn bosibl fel arall, gan alluogi gwell dealltwriaeth o weithio gyda phobl wahanol ac mae wedi annog ffyrdd gwell o ddeall gwahanol fathau o bobl. Rwy'n teimlo fy mod yn gwybod mwy am bobl, diwylliannau ac amgylcheddau drwy ein gwaith ym Pafiliwn Grange."

"Roedd rhai yn newydd i mi er fy mod i wedi clywed amdanyn nhw o'r blaen felly roedd yn braf cael cyfarfod â rhai o'r rhain, yn enwedig arweinwyr cymunedol."

"Do, gwnaethom ymgysylltu a meithrin cydberthnasau ag amrywiaeth o bobl wahanol o'r gymuned leol a thu hwnt. Gallwn ddefnyddio'r cysylltiadau newydd hyn i ymgysylltu ymhellach ynghylch y camau nesaf wrth baratoi'r cynllun."

# Canlyniadau gwefan Lleisiau Cymunedol Caerdydd

Cynhaliwyd map ac arolwg ar-lein communityvoicescardiff.commonplace.is ochr yn ochr â'r ystafell drefol, gan roi dewis i bobl gymryd rhan ar-lein neu wyneb yn wyneb. Cafodd y wefan 2434 o ymwelwyr, gyda 205 o ymatebwyr yn gwneud 435 o gyfraniadau at y map neu'r arolwg.

**Ydych chi wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad cynllunio o'r blaen? Os nad ydych, pam?**
**Nid oedd** 61% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad cynllunio o'r blaen. O'r rhain:

Dywedodd 73% nad oedd unrhyw un erioed wedi gofyn iddyn nhw gymryd rhan
Atebodd 11% 'Nid yw'n werth cymryd rhan mewn ymgynghoriadau gan nad yw f yn marn byth yn cael ei hystyried'
Atebodd 11%, 'doeddwn i ddim yn deall y wybodaeth a gyflwynwyd i mi'
Atebodd 5%, 'Does gen i ddim amser'

**Sut y clywsoch chi am Leisiau Cymunedol Caerdydd?** Roedd dros hanner (54%) yr ymatebwyr yn gwybod am Leisiau Cymunedol Caerdydd drwy gysylltiadau personol - 33% drwy 'argymhelliad personol' a 21% 'drwy'r ystafell drefol'. Roedd dros draean (36%) yn gwybod amdano drwy ffynonellau ar-lein - 20% drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a 16% drwy 'ddolen wedi'i hanfon at bobl rwy'n eu hadnabod. ' **Roedd cysylltiadau personol yn parhau i fod yn bwysig** o ran rhoi gwybod i bobl am Leisiau Cymunedol Caerdydd ochr yn ochr â **dilynwyr newydd a gafwyd drwy lansio llwyfannau ar-lein.**

**Sut yr hoffech i ni ymgynghori â chi ynghylch penderfyniadau cynllunio?** Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng wyneb yn wyneb (27%), ar-lein (25%) ac 'y naill neu'r llall, yn dibynnu ar ba un sy'n fwy cyfleus' (46%). Mae hyn yn cyd-fynd â phrofiad tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd a sgyrsiau â sefydliadau partner yn yr ystafell drefol, a oedd yn pwysleisio'n gyson yr angen i **gynllunio ar gyfer dulliau amrywiol o ymgynghori.**

**Sut gwnaethoch chi gael mynediad i'r platfform cyffredin digidol?** Defnyddiodd hanner (50%) yr ymatebwyr yr arolwg hunangymorth ar-lein ar eu ffôn. Defnyddiodd 8% eu ffôn gyda chymorth aelodau o'r staff yn yr ystafell drefol, defnyddiodd 10% y tabledi yn yr ystafell drefol gyda chymorth aelodau o'r staff, a defnyddiodd 6% y tabledi yn yr ystafell drefol eu hunain.

**Beth yw manteision cynnal ymgynghoriad cymunedol ar-lein, yn eich barn chi?** Roedd cyfleustra (39%) a chyflymder (26%) ar frig y rhesymau dros ymgynghori ar-lein; roedd y gallu i ddefnyddio Google translate (11.5%) a thechnoleg gynorthwyol (15%) yn ffactorau allweddol eraill.

**Beth yw manteision cynnal ymgynghoriad cymunedol wyneb yn wyneb?** Ymatebodd 8% 'y gallu i ofyn am fwy o wybodaeth a mynnu bod pethau yn cael eu hesbonio i mi'; ymatebodd 26% 'clywed am farn pobl eraill'; ymatebodd 24% 'teimlo'n rhan o gymuned'; ac ymatebodd 18% nad oes angen cyfrifiadur na'r rhyngrwyd i gynnal ymgynghoriad wyneb yn wyneb. **Felly, nododd 78% o'r ymatebwyr mai mantais ymgynghori wyneb yn wyneb yw fi fod yn ffordd o rannu gwybodaeth, rhannu barn, a chysylltu ag eraill.**

**Os gwnaethoch ymweld ag ystafell drefol Lleisiau Cymunedol Caerdydd, beth wnaeth eich ysgogi i ddod?** Roedd yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal ac roeddent yn awgrymu y byddai amrywiaeth o ddulliau gwahanol yn cefnogi'r defnydd o ystafelloedd trefol. Denwyd bron i dri chwarter (72%) gan bobl, y defnydd oedd yn cael ei wneud o'r ystafell drefol a'r awyrgylch, gyda 25% yn ymateb 'y bobl sy'n rhedeg yr ystafell drefol', 24% yn nodi'r 'digwyddiadau a'r gweithgareddau yn yr ystafell drefol', 18% yn nodi'r 'awyrgylch yn yr ystafell drefol' a 5% yn nodi'r 'bobl sy'n ymweld â'r ystafell drefol'. Roedd arwyddion ac arddangosfeydd yn cyfrif am 16% o'r ymwelwyr: 7% 'arddangosfeydd yn yr ystafell drefol', 6% 'arwyddion yn yr ystafell drefol', a 3% 'arwyddion y tu allan i'r ystafell drefol'. **Un thema allweddol oedd yr ystafell drefol fel lle i gysylltu a chyfarfod â phobl eraill.**

Dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr **'nad oedd unrhyw un erioed wedi gofyn iddyn nhw'** gymryd rhan mewn ymgynghoriad cynllunio

Clywodd dros hanner yr ymatebwyr am Leisiau Cymunedol Caerdydd drwy **gysylltiadau personol**

oedd yn well gan yr ymatebwyr **fod amrywiaeth o opsiynau ymgynghori ar-lein ac wyneb** yn wyneb ar gael

Ymwelodd pobl â'r ystafell drefol i **glywed barn pobl eraill, cael gwybodaeth a theimlo'n rhan o gymuned**

# Pwy gymerodd ran yn arolwg Lleisiau Cymunedol Caerdydd?

Nod Lleisiau Cymunedol Caerdydd oedd cynrychioli demograffeg trigolion yng Nghaerdydd o ran oedran ac ethnigrwydd. Ein nod oedd cynnwys pobl a oedd yn byw ac yn gweithio yn yr ardal leol drwy sgyrsiau wyneb yn wyneb yn yr ystafell drefol a'r ardal leol, yn ogystal â cheisio cysylltu â phobl ledled Caerdydd drwy'r wefan. Ein nod hefyd oedd cynnwys plant a phobl ifanc yn yr arolwg.

Roedd cyfanswm o 45% o'r unigolion a ymatebodd i'r arolwg a rannodd eu lleoliad yn dod o'r ardal yr oedd yr ystafell drefol ynddi: 31% o Grangetown, 10% o Lan yr Afon a 4% o Butetown. Roedd ymatebwyr eraill yn dod o Blasnewydd (8%), Llandaf (6%), y Sblot (5%) a Cathays (5%). Roed gweddill yr ymatebion wedi'u rhannu'n gyfartal (1-2% yr un) ar draws Caerdydd - Treganna, Cathays, Cyncoed, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Llys-faen, Llanrhymni, Pentyrch a Sain Ffagan, Pen-y-lan, Radur, Rhiwbeina, Tredelerch a'r Eglwys Newydd, yn ogystal ag o Ddinas Powys, Caerffili, Penarth, Torfaen a Bro Morgannwg.

Dywedodd 57% o'r ymatebwyr eu bod yn byw yn yr ardal yr oeddent yn gwneud sylwadau arni, tra roedd 20% yn gweithio yn yr ardal, 10% yn astudio yno, 6% yn cymudo drwyddi a 5% yn berchen ar fusnes ac roedd gan 2% gysylltiadau eraill â'r ardal.

**Oedran**

Mae arolwg Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn cynrychioli ystod o oedrannau. O gymharu â demograffeg ledled Caerdydd, roedd pobl dan 24 oed wedi'u tangynrychioli ychydig ac roedd y grŵp oedran 25-44 yn cael eu gorgynrychioli mewn ymatebwyr i'r arolwg.

**Ethnigrwydd**

Cyrhaeddodd Lleisiau Cymunedol Caerdydd ganrannau uwch o breswylwyr Ethnigrwydd Asiaidd, Du a Chymysg (29% o'r ymatebwyr) o gymharu â demograffeg Caerdydd (15% o drigolion Caerdydd yng nghyfrifiad 2011).




**Oedran yr ymatebwyr i'r arolwg**




**Oedran trigolion Caerdydd (cyfrifiad 2011) o gymharu ag oedran yr ymatebwyr i'r arolwg**




**Arolwg Lleisiau Cymunedol Caerdydd — Ethnigrwydd**




**Demograffeg Caerdydd (cyfrifiad 2011) — Ethnigrwydd**

## Ble mae'r ymatebwyr yn byw - yn ôl cod post




## Ble y rhoddodd ymatebwyr binnau ar fapiau - yn ôl cod post



Cartref Rhowch sylwadau ar fap eich cymdogaeth

EN CY

242 ymatebion



## Rhowch sylwadau ar fap eich cymdogaeth

Sylwadau 161
Cytundebau 3

Cliciwch ar y botwm porffor "Dweud eich dweud" a gollwng pin ar leoliad lle:

- Rydych chi'n cysylltu â natur
- Rydych chi'n mynd i deimlo'n iach
- Rydych chi'n teimlo ymdeimlad o berthyn
- Rydych chi'n teimlo ymdeimlad o ryfeddod
- Rydych chi'n teimlo bod gennych chi synnwyr o reolaeth
- Rydych chi'n ei chael hi'n hawdd mynd o gwmpas eich ardal.

Gallwch ddod yn ôl a gosod nifer o binnau ar y map.

Dysgu mwy am Community Voices Cardiff




**Ewch i'r map yn** https://communityvoicescardiff.commonplace.is/

# Gollyngwch bin ar leoliad lle...

## Rydych chi'n cysylltu â natur (154 o binnau)




## Rydych chi'n mynd i deimlo'n iach (120 o binnau)




## Mae gennych chi ymdeimlad o berthyn (116 o binnau)




## Mae gennych ymdeimlad o ryfeddod (81 o binnau)




## Mae gennych chi ymdeimlad o reolaeth dros eich amgylchedd (28 o binnau)




## Rydych chi'n ei chael hi'n hawdd symud o gwmpas eich ardal (92 o binnau)



## Rhoddodd y rhan fwyaf o'r pinnau wybodaeth i ni am leoedd y mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol amdanynt

**435 Contributions**

404 Comments    31 Agreements

210 Positive | 74 Mostly positive | 5 Neutral | 4 Mostly negative | 8 Negative | 103 No sentiment

Mae mapiau ar-lein yr Ymgynghoriad Cymunedol ar Safon Bywyd yn defnyddio dull sy'n 'seiliedig ar asedau', gan annog pobl i nodi'r lleoedd y maen nhw'n teimlo fwyaf cadarnhaol yn eu cylch. Nodwyd bod tri chwarter y pinnau a osodwyd ar y map (230 o binnau) yn 'gadarnhaol' ac yn 'gadarnhaol ar y cyfan', o'u cymharu â 3% (12 ymateb) a oedd yn 'negyddol ar y cyfan' neu'n 'negyddol'.

gwyrdd, parciau, gerddi, cymuned, harddwch, cysylltu â ffrindiau, llonydd, tawel, teithiau cerdded, rhedeg, ymarfer corff, iechyd meddwl, hapus, perthyn, yn addas i deuluoedd, plant, stori bersonol, atgofion, ymdeimlad o ryfeddod, cartref, bwyd, diodydd, coffi, trafnidiaeth, cysylltiadau da,gwybodaeth, dysgu cyfforddus, croeso, celfyddydau, cerddoriaeth, dawns, hygyrchedd, treftadaeth

Map Lleisiau Cymunedol Caerdydd - themâu sy'n codi dro ar ôl dro yn ôl amlder (dadansoddiad gan Ruchit Purohit)

Clwstwr o binnau ar fapiau o amgylch mannau gwyrdd a glas Caerdydd, gyda 154 o binnau yn nodi cysylltiadau â natur. Mae'r sylwadau cysylltiedig yn disgrifio manteision cael mynediad at natur o ran iechyd meddwl ac iechyd corfforol, cysylltu â theulu a ffrindiau, ymdeimlad o ddianc o'r ddinas mewn man tawel a gwyllt, cyfarfod ag eraill i deimlo'n rhan o gymuned, a gweld pobl eraill:

> 'Mae'r ardal yn dawel ac yn ymlaciol ac yn lle gwych i wneud ymarfer corff. Rwyf hefyd wedi cyfarfod â nifer mawr o gymdogion drwy gerdded yma. '
>
> 'Rwy'n cyfarfod â ffrindiau a theulu ac yn mwynhau'r blodau, y golygfeydd a'r ymdeimlad o fod mewn man agored, mae ganddo fwy o laswellt a mannau agored ac mae pobl yn dod i wneud gweithgareddau y maen nhw'n eu mwynhau. Mae'n lle hapus ar gyfer chwaraeon. '
>
> 'Rwyf wrth fy modd â'r bariau tynnu i fyny yma ac rwyf wrth fy modd yn gwylio llawer o wahanol gymunedau (myfyrwyr, teuluoedd o bob ethnigrwydd, pêl-droedwyr ac ati) yn defnyddio'r un lle.
>
> 'Rydyn ni'n dwli ar y natur, mae'n werthfawr iawn ac rydyn ni'n ddiolchgar ei bod gennym.'

Gellir gweld yr holl binnau ar fapiau a'r sylwadau yn [https://communityvoicescardiff.commonplace.is/](https://communityvoicescardiff.commonplace.is/)

## Beth yw'r lle rydych chi wedi'i nodi ar y map?




## Dywedwch pam eich bod yn teimlo fel hyn




Grange
Which places do you value most in Cardiff?

# Pinnau Grangetown (95 o binnau)



Ymwelodd myfyrwyr o Ysgol Pensaernïaeth Cymru â phob lleoliad yn Grangetown a thynnu lluniau o'r lleoedd yr oedd pobl yn dweud eu bod yn eu gwerthfawrogi fwyaf.  Cafodd y lluniau, ynghyd â'r sylwadau ar gyfer pob lleoliad, eu troi'n gardiau post a'u rhannu yng ngweithdai dilynol Love Grangetown a digwyddiad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2022. Llun gan Ysgol Pensaernïaeth Cymru MArch2 yr Uned Gwerth 2022-23.



'Mae hwn yn teimlo fel lle unigryw iawn yng Nghaerdydd. O safle tirlenwi i barc sy'n fwrlwm o natur, mae'n fy ngalluogi i gael ymdeimlad o fan gwyllt o fewn dinas brysur.'

'Mae'r Marl yn lle pwysig i mi am sawl rheswm. Dros y blynyddoedd rwyf wedi chwarae llawer o chwaraeon yma, ond yn fwy diweddar gyda'r polisi dim torri gwair yn arwain at gynnydd mewn blodau gwyllt, mae bellach yn fwy na dim ond maes chwaraeon ac rwy'n eithaf hoff o gerdded a rhedeg o gwmpas yma.'





'Rwy'n teimlo'n drist bod yr ardal hon wedi cael ei hesgeuluso a hoffwn ei gweld yn cael ei throi'n ardd bywyd gwyllt.'



'I ble mae'r meinciau wedi mynd?



'Mae'r gerddi a'r Pafiliwn wedi dod yn rhan fawr o fy mywyd, maent yn agos iawn at fy nghartref ac yn lleoedd croesawgar.'

# Myfyrdodau ar yr Ystafell Drefol

## Mymuna Soleman, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol

**Gweithredu ar y wybodaeth a gafwyd**

Fel preswylydd ac ymgyrchydd, mae rôl y Rheolwr Partneriaethau Cymunedol yn cyd-fynd yn agos â dangos y byddai effaith hirdymor, bendant yn deillio o unrhyw brosiect ymchwil.  Roedd hyn yn hanfodol o ran cynnal ymddiriedaeth os oeddwn i'n gofyn i bobl yn yr ardal leol rannu eu barn, ac yn creu pwysau wrth ofyn i bobl ymuno â gweithgareddau a chwblhau arolygon.

Yn Ystafell Drefol Caerdydd, o ganlyniad i brofiad bywyd a gwybodaeth leol am yr effaith ar bobl pan ofynnir iddyn nhw gymryd rhan mewn arolygon - yn aml gyda'r ymdeimlad na fyddai unrhyw newid amlwg yn deillio o'r amser a'r wybodaeth a roddwyd – gwnaeth rôl y Rheolwr Partneriaethau Cymunedol wahanu'r weithred o arolygu yn yr Ystafell Drefol a chanolbwyntio, yn lle hynny, ar gyfweliadau un i un a meithrin cydberthnasau ag unigolion a sefydliadau i gefnogi camau nesaf pendant. Mewn sgwrs fyfyriol, mae Mymuna yn nodi:

"Hoffwn i weld y safbwyntiau hynny yn troi'n weithredoedd go iawn. Er enghraifft, beth fydd yn deillio o hyn o ran pobl yn dweud, 'Dyma'r ffordd yr hoffwn i chi ymgynghori â mi'? Sut y bydd cyrff a sefydliadau sy'n gwneud penderfyniadau yn mynd ati i wneud hynny? Sut y bydd yr holl sefydliadau rydyn ni wedi siarad â nhw yn rhoi hynny ar waith mewn gwirionedd?"

**Nid dim ond rhannu sgiliau a gwybodaeth ond eu defnyddio hefyd.**

"Rydym wedi rhannu llawer o sgiliau a gwybodaeth â'r sefydliadau hyn drwy gydol y broses ymchwil. Y cwestiwn wedyn yw sut gallwch chi adeiladu ar y sgiliau hynny, eu rhoi ar waith a'u ffitio i mewn i'r gwaith rydych chi'n ei wneud gyda llais y gymuned wrth ei wraidd? Sut y gallwch roi sicrwydd i ni y bydd y dulliau y nododd cymunedau eu bod yn fwyaf effeithiol yn troi'n ganlyniadau pendant gwirioneddol yn ogystal ag adeiladu ar y cydberthnasau hynny



Llun gan Peter Evans

â phobl leol er mwyn eich helpu i ddatblygu hynny'n ymarferol?

Mae a wnelo â bod yn dryloyw bob amser. Mae ymchwil yn beth da wrth gwrs, ond mae angen gweithredu. A fydd yn dod o bobl sydd bob amser wedi bod mewn grym neu a fydd pobl leol a lleisiau lleol yn llywio camau gweithredu a chanlyniadau? Sut y bydd y canfyddiadau gwirioneddol gwaith ymchwil yn dod yn realiti, a fyddant yn berthnasol a fyddant yn cael y canlyniad mwyaf cadarnhaol i gymunedau? Sut y byddwn yn gweld hynny mewn bywyd go iawn, yn ymarferol?

Roedd y Tîm Adfywio o Gyngor Caerdydd yn bresennol yn un o'n hystafelloedd Trefol lle roedd trigolion yn gallu siarad yn uniongyrchol â staff a chael sgyrsiau wyneb yn wyneb go iawn, lle'r oedd rhai trigolion yn dweud 'Dyma fy nhŷ i, dyma lle rwy'n byw, beth sy'n mynd i ddigwydd'? ' Roedd pŵer yr ystafell drefol i alluogi uwch-aelodau o staff a thrigolion lleol gysylltu â'i gilydd yn anhygoel ac roedd hyn yn adlewyrchu eu hadborth i ni."

**Ymddiried yng ngwybodaeth y Rheolwr Partneriaethau Cymunedol**

Un o'r gwersi allweddol a ddysgwyr o brosiect Lleisiau Cymunedol Caerdydd oedd y gallu i ymddiried pan nad oedd rhywbeth yn gweithio a'r gallu i addasu'r dull ac ymddiried yng ngwybodaeth, sgiliau a greddf y Rheolwr Partneriaethau Cymunedol.  Daw'r wybodaeth

hon o brofiad bywyd ac, fel preswylydd lleol ac ymgyrchydd, mae i ymwneud â sefydliadau a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil oblygiadau sylweddol os na fydd y cydweithio yn arwain at rywbeth diriaethol:
"Mae ceisio cysylltu cymunedau a sefydliadau yn dasg fawr, yn enwedig y rhai nad ydynt wedi ymgysylltu â phobl o wahanol gefndiroedd, neu sydd wedi'i chael hin anodd cysylltu â phobl o'r fath, ers amser maith. Mae fel petaech chi'n rhoi'r ymddiriedaeth rydych chi wedi'i meithrin gyda chymunedau mewn sefyllfa fregus fel aelod o'r 'gymuned' honno eich hun, ond mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth o faterion o'r fath ar yr un pryd ac rwy'n teimlo, os ydw i'n gweithio gyda sefydliad, fy mod i'n plannu'r hadau hynny a fyddai'n dweud 'rhowch rywfaint o bŵer i mi wneud penderfyniadau oherwydd fy mod i'n gwybod beth fydd yn gweithio a beth na fydd yn gweithio.

Felly mae a wnelo â gweithio gyda'r bobl iawn, os ydyn nhw'n deall fy null a'r hyn sydd wedi gweithio i mi a'r hyn nad yw wedi gweithio mewn gwirionedd. Byddai'n eithaf anodd gweithio o'i gwmpas, ond nid yn amhosibl, pe na baent yn deall hynny gan nad ydyn nhw erioed wedi bod yn fy sefyllfa i o'r blaen. Mae a wnelo â deall hynny ac ymgorffori hynny yn fy rôl, cydweithio ag eraill i rannu sgiliau ond hefyd rhoi perchnogaeth i mi o ba ddulliau y byddwn yn eu defnyddio, yn enwedig o brofiad."

**Cydweithrediad hirdymor**

Gall y gallu i ddatblygu ac addasu ffordd o weithio gyda sefydliad gefnogi dull tymor hwy, a chefnogi ymddiriedaeth barhaus pan fydd pethau'n cymryd amser hir i gael eu gwireddu:

"Dyna pam mae'n beth da cydweithio a gweithio gyda phobl eraill, ond gwneud hynny dros gyfnod llawer hwy o amser. Yn hytrach nag yn y byrdymor yn unig, a all gael effaith eithaf negyddol ar bobl. Ond rhaid bod yn onest: "Mae hwn yn rhywbeth byrdymor am y tro. A gobeithio y gallwn wneud newid hirdymor go iawn, a gallwch chwarae rhan yn y daith gyfan.

Mae a wnelo â chael sgyrsiau agored, gonest er mwyn sicrhau bod yna ymrwymiad gwirioneddol yn ystod cam cynllunio'r ymgynghoriad i symud ymlaen i weithredu ystyrlon a fydd yn creu sylfaen o gymuned o ymddiriedaeth."

## Mhairi McVicar, Cyd-Ymchwilydd

Fel ystafell drefol cymdogaeth, mae Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn gwerthfawrogi gwybodaeth leol a phrofiad bywyd. Fel rhan o brosiect ymchwil ehangach yn y DU, roedd cydbwyso gofynion a dulliau'r prosiect ymchwil ehangach â'r gallu i addasu i amgylchiadau lleol mewn ymateb i'r hyn a oedd yn gweithio a'r hyn nad oedd yn gweithio o ddydd i ddydd yn heriol i bawb a oedd yn gysylltiedig â'r prosiect, ond deilliodd pwyntiau dysgu gwerthfawr ohono, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

**Ystafell drefol fel lle i wneud cysylltiadau.**
Yng Nghaerdydd, gweithiodd gweithgareddau'r ystafell trefol cymdogaeth yn dda ar gyfer cyflwyno'r pros-iect, ond roedd ar ei gorau pan nad oedd yn gweithredu fel dull o gasglu arolygon. Fel y nododd llysgennad myfyrwyr Shoruk, "Nid yw'r ffaith bod lle yn brysur yn golygu ei bod yn haws cael ymateb-ion - mewn gwirionedd, mae'n ei gwneud hi'n an-oddach am fod cymaint o bethau eraill yn di-gwydd." Gallai gofyn am arolygon yn ystod gweith-gareddau deimlo'n echdynnol, yn ymwthiol neu'n amhriodol, gan amharu ar sgyrsiau a allai gefnogi cysylltiadau tymor hwy.

**Troi'r sgwrs.**
weithiodd sesiynau 'wedi'u troi' yn dda, gan roi pobl sydd fel arfer yn cynnal ymgyng-horiadau yn sefyllfa derbynwyr gweithgareddau â ffocws, gan greu lle i fyfyrio ar fwriad ac effaith ymgynghoriadau a gwrando.

**Gwerthfawrogi profiad bywyd a gwybodaeth leol.**
Daeth prosiect ymchwil a gynhaliwyd ledled y DU â dulliau wedi'u diffinio ymlaen llaw a'r angen i gasglu tystiolaeth. Roedd yn rhaid cydbwyso hyn â'r gallu i 'fod yn agored ac yn dryloyw ynghylch diffygion a sicrhau bod cyfle i newid', fel yr argymhellodd y grŵp cynghori lleol. Roedd yn hanfodol bod yr ym-chwil yn rhoi'r cyfle hwn i newid. Yng Nghaerdydd, roedd hyn yn golygu addasu rôl y rheolwr partner-iaethau cymunedol er mwyn meithrin cyd-berthnasau tymor hwy a chynnal cyfweliadau un i un mewn mannau mwy preifat, yn hytrach na theimlo'n 'echdynnol' wrth gasglu arolygon cy-hoeddus.

Byddwch yn onest am yr hirdymor. Daeth ystafell drefol cymdogaeth â'r cyfrifoldeb am gynnal cyd-berthnasau hirdymor yn ei sgil. Byddai'r rhai a oedd wedi rhoi o'u hamser a'u gwybodaeth yn dal i fod yn gysylltiedig â'r tîm ymchwil ar ôl i'r prosiect ddod i ben, sy'n amlygu'r cyfrifoldeb o ddangos y gallai ymchwil arwain at newid pendant.

“Cawsom wared ar y gair ‘ymgynghori’ yn gyflym ac roedd y cardiau post ‘â geiriau sbardun’ yn help mawr i agor ffyrdd o feddwl a thrafodaeth am hyn.”













“Sut mae’r geiriau hyn yn cael eu defnyddio? Oes iddyn nhw fwriad ystyrlon? Neu ydyn nhw’n rhan o ymarfer ticio blychau?”












# Iaith yr ymgynghoriad

Ysgogodd sgwrs a gynhaliwyd wrth gynllunio Lleisiau Cymunedol Caerdydd, y llysgennad myfyrwyr Shoruk Nekeb, derbynnydd ymgynghoriadau ac arolygon ymchwil, i anfon neges e-bost at y tîm ymchwil gyda ‘rhestr o eiriau rydw i wedi cael llond bol ar eu clywed’.




*“Mae’r geiriau hyn yn golygu pethau gwahanol i bobl wahanol, ond i mi maen nhw’n sbarduno rhywbeth pan gânt eu defnyddio yn y diwydiant adeiladu gan wybod yn iawn eu bod yn wag. “*
*(Shoruk Nekeb)*




Rhannodd gweithdy ‘wedi’i’ droi’ gardiau post â phobl sy’n cynnal ymgynghoriadau cymunedol er mwyn trafod bwriadau a goblygiadau geiriau a ddefnyddir yn aml mewn ymgynghoriadau. Cafodd gweithdy’r Ystafell Drefol gyda Chymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru (RSAW) ei gynnal eto yng Nghynhadledd Flynyddol RSAW gyda’r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS), Sefydliad Siartredig y Technolegwyr Pensaernïol (CIAT) a’r Sefydliad Tai Siartredig (CIH).




‘Ac mae wedi newid y ffordd rwy’n trafod ymgynghoriadau â grwpiau ehangach o bobl, gan herio eu dulliau ymgynghori yn fwy.”






# 5. Sgyrsiau Parhaus

Roedd ystafell drefol Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn fan cychwyn ar gyfer meithrin cydberthnasau i gefnogi camau gweithredu yn y dyfodol.  Mae sgyrsiau a ysgogwyd gan ein profiadau o'r Ystafell Drefol wedi parhau ar ôl y pedair wythnos o ddigwyddiadau ym mis Mai 2022. Cynhaliwyd y cyntaf o'r sgyrsiau parhaus yn y Senedd, Caerdydd, lle cynhaliodd rheolwr partneriaethau Lleisiau Cymunedol Caerdydd, Mymuna Soleman, sesiwn Caffi Braint, gan barhau â thema iaith ymgynghori.  Dechreuodd y digwyddiad a gynhaliwyd ddydd Mawrth 12 Gorffennaf drwy herio'r ymadrodd 'anodd ei gyrraedd', a chyhoeddir y blog canlynol yn **http://ccqol.org/2022/08/16/i-am-not-hard-to-reach-is-there-a-right-way-to-engage-with-communities/**

# NID yw'n anodd fy nghyrraedd




Mewn digwyddiad cyhoeddus llawn dop yn y Senedd, Caerdydd, gwahoddodd sylfaenydd Privilege Café a rheolwr partneriaethau Community Voices Caerdydd gynulleidfa bersonol ac ar-lein i herio ystyron ac effaith ymadroddion a ddefnyddir yn gyffredin fel rhan o ymgynghoriad cymunedol, fel 'anodd eu cyrraedd','torri rhwystrau', 'adeiladu pontydd',      'grymuso', 'effaith go iawn',' cymuned ', ac 'ymgynghori 'ei hun.

‘Mae’n sarhaus pan ddywedir wrthych eich bod yn anodd i gyrraedd.’ Agorodd siaradwr y panel Lela Patterson, sydd wedi bod yn ddall ers genedigaeth, y sesiwn trwy awgrymu y gall ymgynghori fod orau pan gaiff ei symleiddio i sgwrs. ‘Gwnewch yr ymdrech: peidiwch â bod ofn dod ataf. Gofynnwch unrhyw beth i mi. ‘ Gwerthfawrogwch fuddsoddiad yr amser a’r ymdrech i adeiladu perthnasoedd, cynghorodd Matthew Gough, Uwch-ddarlithydd mewn Dawns ym Mhrifysgol De Cymru, a awgrymodd fod defnydd sefydliadau o’r ymadrodd ‘anodd ei gyrraedd’ yn adlewyrchu diffyg ymdrech i weithio gyda phobl. ‘Pwy yw’r bobl sy’n barod i roi eu hamser? ‘ Holodd Matthew: ‘Ydy pobl yn y sefydliad yn gwybod sut i siarad â phobl eraill? ‘

Gan wahaniaethu rhwng cymdogaeth fel lle rydym yn byw, a chymuned sy’n mynd y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol, pwysleisiodd yr hanesydd cymdeithasol a diwylliannol Abubakr Madden Al Shabazz yr angen i wneud gwaith paratoi cyn ymgynghori er mwyn deall systemau cred, moesau, diwylliannau a normau yn well fel y ‘gwybodaeth sydd ddim mewn gwerslyfr’ am yr hyn sy’n ffurfio ‘cymuned.’ Gan ddiffinio arbenigedd nid fel yr hyn rydych eisoes yn ei wybod, ond gan wybod beth sydd angen i chi ei ddysgu er mwyn ymgysylltu, pwysleisiodd y panel yr angen i wybod sut i gael sgyrsiau anodd i allu deall anghenion sy’n gwrthdaro. ‘Rydyn ni i gyd wedi ‘ein labelu’, crynhodd Lela, ‘ac mae angen i ni gamu i ffwrdd o hynny.’

## ‘symbolaeth blwch ticio’

Gan argymell bod cynrychiolaeth mewn ymgynghoriad yn ymestyn y tu hwnt i ‘symbolaeth blwch ticio’, cadarnhaodd Mymuna ‘Rydw i wedi blino cael fy holi pam nad yw “eich” pobl yn ymgysylltu.’ ‘Rwy’n dod o’r gymuned ddall, ond nid wyf yn siarad dros bawb’, nododd Lela, tra bod Abubakr yn pwysleisio’r ddeinameg amrywiol, y croestoriadedd a’r amrywiaeth o fewn unrhyw gymuned na ellir ei chynrychioli gan lais ‘cynrychioliadol’ unigol. Mae sefydliadau allanol yn tueddu i weithio dro ar ôl tro gyda chynrychiolwyr ‘derbyniol’ mewn cymunedau, nododd Matthew, gan grynhoi’r dull hwn fel “Rydych chi’n edrych yn wahanol ond rydych chi’n siarad ‘ein’ iaith ac felly rydyn ni’n eich derbyn chi.” O ganlyniad, ‘mae’r opteg yn ymddangos yn well ond mae ychydig o bobl ‘gynrychioliadol’ yn dal y grym, a ddim yn rhannu sgiliau.‘

Pwysleisiwyd yr angen am brosesau ymgynghori i rannu grym a sgiliau.  ‘Mae grantiau bob amser eisiau i chi ymgynghori, ond rydych chi bob amser yn mynd at yr un bobl’, cytunodd aelodau’r gynulleidfa, gan argymell bod cyllidwyr a sefydliadau yn rhoi’r gorau i greu darlun o’r bobl y maent yn eu gweld yn ‘dderbyniol’ ac yn lle hynny yn rhoi cyfleoedd i bobl ‘fewnol’ lluosog yn y gymuned; eu bod yn buddsoddi mewn datblygu sgiliau ar draws cymunedau.  ‘Peidiwch â thynnu arian ymgynghori o’r cymunedau’, argymhellodd y gynulleidfa, gan fframio’r defnydd o ddarparwyr gwasanaethau allanol fel tynnu gwerth oddi wrth y gymuned o ran arian a sgiliau.





Roedd echdynnu gwerth drwy ymgynghori yn bwnc allweddol. Roedd rhai aelodau o'r gynulleidfa wedi rhoi o'u hamser dros ddegawdau yn ymateb i arolygon a holiaduron, heb unrhyw newid amlwg. 'Weithiau rydych chi'n gofyn i bobl rannu eu trawma drosodd a throsodd,' nododd aelod o'r gynulleidfa. 'Sut alla i ymddiried ynoch chi i ddefnyddio fy ngwybodaeth? Rydych chi'n gofyn i mi rannu fy nhrawma am ddim rheswm.' Cwestiynwyd atebolrwydd a chymhelliant ymgynghoriadau. A yw eich ymgynghoriad yn drafodaethol, neu a ydych chi'n ymrwymo i berthynas hirach? Beth yw nod terfynol eich ymgynghoriad: a ydych yn anelu at weithio gyda chymuned, neu'n syml i'w hysbysu am rywbeth sydd eisoes wedi'i benderfynu? Beth yw'r cymhelliant ar gyfer ymgysylltu?

## Beth yw'r cymhelliad i ymgysylltu?

Gwnaeth Matthew droi'r cysyniad o 'anodd eu cyrraedd' ar ei ben, gan ei ddisodli gyda 'dwi'n dewis camu i ffwrdd' o ymgynghoriadau diangen heb unrhyw atebolrwydd. Pan na fydd pethau'n newid oherwydd ymgynghoriadau, pan roddir amser gwerthfawr a phrofiad byw heb unrhyw gamau gweladwy dilynol neu ddilyniant, mae'r rhai dan sylw yn dewis peidio â rhoi mwy o'u hamser. Roedd atebolrwydd yn gysylltiedig â'r dilyniant: sut y bydd y rhai sy'n ymgynghori'n dychwelyd i'r gymuned i rannu canlyniadau a phrofi a yw camau gweithredu dilynol yn gweithio?

Roedd atebolrwydd ymgynghoriad yn gysylltiedig â phrofiadau uniongyrchol aelodau'r gynulleidfa o ganlyniadau negyddol yr iaith a ddefnyddir wrth ymgynghori, gan gynnwys termau fel 'amddifad', 'difreintiedig' ac 'anodd eu cyrraedd.' 'Mae geiriau'n glynu wrth bobl: maen nhw'n labelu, yn beio, ac yn stereoteipio,' nododd Abubakr, gan ddyfynnu *Language of Violence* Disposable Heroes of Hiphoprisy: 'Gall geiriau leihau person i wrthrych. '

Mae gan eiriau sy'n labelu cymuned etifeddiaeth: maent yn treiddio trwy genedlaethau. Nid yw pobl yn anghofio'r geiriau sydd wedi cael eu defnyddio yn eu herbyn ac maent yn cydnabod pan

mae termau a fu unwaith yn bwerus, fel 'grymuso', yn cael eu cyfethol at ddefnydd corfforaethol ac yn cael eu hamddifadu o'u hystyr a'u pŵer gwreiddiol.

Cadarnhaodd y gynulleidfa eu bod yn gyfarwydd â geiriau poblogaidd ymgynghoriadau a'u bod yn ddrwgdybus ohonynt.

## Crynhowyd cwestiynau allweddol ac argymhellion y sesiwn fel a ganlyn:

A yw'r bobl rydych chi'n ceisio ymgynghori â nhw wir yn 'anodd eu cyrraedd' neu a ydyn nhw'n dewis camu i ffwrdd gan eu bod yn ddrwgdybus o gymhellion ac atebolrwydd yr ymgynghoriad?

A yw eich ymgynghoriad yn groestoriadol? A yw wedi'i anelu at ystod eang o ddiddordebau, normau, anghenion? A yw'n tybio amrywiaeth o fewn cymunedau amrywiol, neu a yw'n disgwyl llais homogenaidd?

Pwy sydd wedi cael ei 'ddewis' fel llais 'derbyniol' i'r gymuned: sut mae'r pŵer a'r sgiliau i arwain ymgynghoriad o'r tu mewn i gymuned yn cael eu rhannu a'u datblygu o fewn cymunedau?

Beth mae ymgynghoriad yn ei gynnig, a beth mae'n ei echdynnu? A yw'r ymgynghoriad yn echdynnu gwerth o'r gymuned o ran dargyfeirio cyllid a dibrisio profiad byw? Beth fydd y canlyniadau diriaethol o roi amser a gwybodaeth?

Mae geiriau wir yn bwysig: mae geiriau poblogaidd ymgynghoriadau a'r geiriau a ddefnyddir i ddisgrifio 'problemau' cymuned yn hysbys, yn cael eu drwgdybio a'u cofio, ac yn arwain at ganlyniadau byw.

Ac yn olaf: cadwch bethau'n syml. Cofiwch gydnabod y gwerth o fuddsoddi amser dim ond i siarad â phobl.

*Cynhaliwyd 'Dydw i DDIM yn anodd fy nghyrraedd' fel y digwyddiad clo mewn sgwrs 6 mis yng Nghaerdydd dan arweiniad Lleisiau Cymunedol Caerdydd fel rhan o'r Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQol.org), a gynhaliwyd ledled y DU ac a ariennir gan AHRC, ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd.*

*Arweiniodd Mymuna Soleman, Shoruk Nekeb, Mhairi McVicar a Ruchit Purohit, ynghyd ag Ali Abdi, Corey Smith a Sophey Mills o Borth Cymunedol Prifysgol Caerdydd fis o sgyrsiau ym Mhafiliwn Grange ym mis Mai 2022 gyda sefydliadau trydydd sector, Cymdeithasau Tai, Cyngor Caerdydd, Swyddfa Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, disgyblion ysgol, Fforwm Ieuenctid Pafiliwn Grange, a llawer o unigolion. Nododd Shoruk Nekeb yr ymadroddion a drafodwyd yn y sesiwn hon.*

*Testun gan Mhairi McVicar, Mymuna Soleman a Shoruk Nekeb*

# Sgyrsiau am Gynllun Lle Grangetown

Ym mis Tachwedd 2022, cydweithiodd tîm Lleisiau Cymunedol Caerdydd â myfyrwyr a oedd yn astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Pensaernïaeth yn yr Uned Gwerth yn Ysgol Pensaernïaeth Cymru, y Porth Cymunedol a CIO Pafiliwn Grange i gynnal wythnos o weithdai i barhau â'r themâu o'r ystafell drefol a gynhaliwyd ym mis Mai, sef: Iechyd a Lles, Tai, Mannau Gwyrdd a Lleisiau Ifanc

Hysbysebwyd sesiynau bore, prynhawn a gyda'r nos wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos fel rhai a oedd yn agored i bawb. Cafodd unigolion a sefydliadau a oedd wedi ymuno ag ystafell drefol mis Mai eu gwahodd yn uniongyrchol hefyd i drafod sut y gallai eu hadnoddau, eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u nodau cyfunol gefnogi'r camau nesaf tuag at lansio cynllun lle wedi'i ddiffinio gan y gymuned.


SESSION OPENING
Name/Organisation:
Role:
Aim for the day:


SESSION OPENING
In 5 years Grangetown will be...


SESSION CLOSING
Name/Organisation:
A Grangetown place plan should include...


SESSION CLOSING
My/Our skills and resources that can contribute to a Grangetown place plan are...

**Cod Ymddygiad ar gyfer Sgyrsiau am Gynllun Lle Grangetown**

Dangoswch gwrteisi a pharch
Mae barn pawb yn cyfrif
Cymerwch ran mewn trafodaeth yn barchus
Dim ond un person ar y tro sy'n cael siarad. Gwrandewch pan fydd eraill yn siarad.
Codwch eich llaw i gyfrannu at drafodaeth.
**Mae'r gweithdy'n canolbwyntio ar nodi camau gweithredu cadarnhaol a chyfleoedd i gydweithio.**

Value Unit MArch2 2023: Ahmed Ahmed, Harien Edwards, Adam Hogan, Aleksandra Konopka, James Miller, Sam Phillips, Aidana Roberts, Priyanka Sakthimohan, Jordan Stephens. Mhairi McVicar & Dan Benham.

# Sgyrsiau am Gynllun Lle Grangetown

**Prif amcanion:**

Meithrin gwell dealltwriaeth o beth sy'n bwysig i gymunedau yn Grangetown

Ymchwilio i themâu pellach gwerth a nodwyd gan ymgynghoriadau blaenorol yn Grangetown

Cryfhau'r gydberthynas rhwng rhanddeiliaid allanol a rhanddeiliaid cymunedol er mwyn annog rhagor o gydweithio

Yr Uned Gwerth, Ysgol Pensaernïaeth Cymru, yn cydweithio â Lleisiau Cymunedol Caerdydd, y Porth Cymunedol a Phafiliwn Grange



Llun gan Peter Evans

# Gweithdy dilynol ar Iechyd a Lles



## Dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Lleisiau Cymunedol:** Cynifer o leisiau â phosibl - y lleisiau tawel. Llais cymunedol! Dull allgymorth siopau/ysgolion/canolfannau/grwpiau crefyddol lleol. Pob llais yn y gymuned. Pobl yn gyntaf. Gwybodaeth gan y gymuned gyfan, yn enwedig y rhai nad ydynt fel arfer yn cael eu cynnwys. Lleisiau go iawn - pobl go iawn, pobl leol. Pob cymuned i gael ei chynrychioli. Gwneud pethau ar y cyd. Llywodraethu democrataidd.

**Nid dim ond y pethau amlwg**
seilwaith teithio llesol, llwybrau teithio llesol, cyfleoedd i bobl fynd allan mwy.

**Teithio llesol:** Darpariaeth trafnidiaeth - seilwaith teithio llesol, llwybrau teithio llesol, cyfleoedd i bobl fynd allan mwy.

**Polisïau i Grangetown:** tai a mannau cymdeithasol; polisïau a chanllawiau sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion a dyheadau pobl Grangetown, gan gynnwys cyfleusterau, mathau o dai, addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Canolfan ar gyfer darparu'r celfyddydau a'r celfyddydau cyfranogol.

**Lles:** Cyfleuster integredig i bob rhywedd sy'n darparu mwy o weithgareddau awyr agored, mwy o weithgareddau sy'n ymwneud ag iechyd a lles. Cynllun presgripsiynu cymdeithasol sy'n ymdrin â rheoli poen ac iechyd meddwl - gofynnwch beth sydd ei eisiau ar y gymuned o ran ffyrdd o fyw ar gyfer iechyd. Iechyd a lles ei thrigolion.

## Y sgiliau a'r adnoddau y gallwn eu cyfrannu yw:

Buddsoddi mewn darpariaethau teithio llesol ac integreiddio â seilwaith trafnidiaeth cenedlaethol Rhwydwaith trafnidiaeth integredig yng Nghaerdydd. Hyrwyddo iechyd a lles drwy Trafnidiaeth Cymru.

Cyfleoedd i leisio barn ar ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol. Grŵp cynnwys y cyhoedd a chynghori ar ymchwil iechyd.

Profiad mewn mannau eraill - adfywio mannau gwyrdd ar gyfer cyfleoedd llesiant.

Gall cysylltiad rhwng polisi a lle ddod â chysyniadau a damcaniaethau i brosesau yn Grangetown a all ein helpu i feddwl mwy amdano / herio'r hyn sy'n digwydd.

Hyrwyddo ymdrechion sy'n ymwneud â'r cynllun lle – yn enwedig y rhai sy'n cysylltu â nodau'r amcanion 'gwyrddach, gwylltach, tecach ac iachach'. Cymorth i feithrin cysylltiadau â sefydliadau sy'n gweithio tuag at y nodau hynny.

Adolygu'r holl gynlluniau lle yng Nghymru yn 2020. Wedi cymharu'r rhan fwyaf o adrannau cynllun lle, wedi gweithio gyda sawl cymuned gan fynd i'r afael â gwneud newidiadau yn lleol.

Gweithio gyda phobl ifanc, y cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau.

Fy rhwydweithiau o fewn cymunedau, rhannu fy sgiliau (iaith ac ati).

Rhowch sesiynau i drigolion sy'n cyfrannu at gynllun presgripsiynu cymdeithasol sy'n mynd i'r afael â'r hyn sydd ei eisiau ar y gymuned o ran ffyrdd o fyw ar gyfer iechyd.

sail dystiolaeth ar gyfer data iechyd y boblogaeth, profiad ym meysydd cynllunio ac iechyd y cyhoedd.

Y celfyddydau creadigol a pherthnasoedd dynol

Cymhwyster mewn ffitrwydd rhedeg, amser i ddod â phobl at ei gilydd mewn gweithgareddau cymunedol, gwybodaeth leol am grwpiau a phobl allweddol yn y gymuned, y gallu i ddod â phobl at ei gilydd.

Cydweithio artistig er mwyn helpu gyda lles pobl.

# Gweithdy dilynol ar Tai



## Dywedodd y cyfranogwyr y dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Tai fforddiadwy o ansawdd uchel**: cartrefi fforddiadwy, ardaloedd y gellir eu datblygu'n dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion cymunedol, tai dan arweiniad y gymuned sy'n adlewyrchu lleisiau amrywiol, gweithgareddau am ddim, amrywiaeth o dai (cynaliadwy/fforddiadwy), tai sy'n adlewyrchu anghenion a dymuniadau trigolion Grangetown, cartrefi newydd wedi'u hadeiladu'n dda, ardaloedd, ardaloedd y mae angen eu gwella, tai digonol, diogelwch i'r holl drigolion.

**Mannau Gwyrdd:** gardd gymunedol, mannau gwyrdd o werth i'r gymuned, yn cynnwys mannau gwyrdd, mannau tyfu cymunedol, mannau gwyrdd

**Bywyd cymdeithasol:** lle i bobl o bob oedran gymdeithasu / cysylltiadau; mannau cymdeithasol / canolfan ieuenctid, canolfan gymunedol i bobl o bob oedran.

**Lleisiau Cymunedol:** Ffyrdd o gael barn pawb, lleisiau cadarnhaol

**Ymarferoldeb:** cynigion dichonadwy a SMART

**Cysylltiadau ehangach:** y cyfle i gymryd rhan mewn cysylltiadau ehangach, e.e., sut y gall tai gyfrannu at ddatgarboneiddio, trafnidiaeth, iechyd, sgiliau, ac ati; Asedau Cymunedol.

## Y sgiliau a'r adnoddau y dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai y gallant eu cyfrannu yw:

Fel darparwr tai mae gennym dîm cynhwysiant cymunedol a thîm datblygu a allai gyfrannu at Gynllun Lle a dysgu ffyrdd o'i gefnogi.

Gwybodaeth trigolion hirdymor.

Gwybodaeth Leol, buddiant breintiedig fel preswylydd hirhoedlog, cysylltiadau â mwy o siopau lleol a busnesau lleol.
Fy marn, fy safbwyntiau a'm syniadau o wirfoddoli.

Y 5 ffordd o weithio, caffael yng Nghymru, gan edrych ar syniadaeth hirdymor ynglŷn â chreu cymunedau gwell. Gwnaethom lunio adroddiad ar gartrefi sy'n addas ar gyfer y dyfodol gyda'r Sefydliad Economaidd Newydd ac mae hynny'n cysylltu llawer o'r themâu y soniwyd amdanynt.

Gallaf ddod â syniadau a sgiliau sydd o fudd i anghenion y gymuned.

Gwybodaeth am yr ardal, fy rhwydweithiau a'm cysylltiadau, a dealltwriaeth o'r rhwystrau y gall trigolion eu hwynebu, h.y., iaith a hygyrchedd.

Gallaf ddod â straeon o leoedd eraill, syniadau a phrofiadau eraill (beth allai fod yn bosibl) a pha fath o bethau newydd a allai gael eu cyflwyno.

Syniadau realistig am ddylunio mannau gwyrdd.

# Gweithdy dilynol ar fannau gwyrdd a glas



# Dywedodd y cyfranogwyr y dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Mannau hygyrch:** Ardaloedd y gall oedolion a phlant deimlo'n rhydd i'w defnyddio ar gyfer chwaraeon, mannau tyfu, ardaloedd creadigol a digwyddiadau. Pwrpas lleoedd – darpariaethau ('affordances'). Dylai mannau gwyrdd wneud iawn am ddiffygion i wella ansawdd y preswylfeydd cyfagos. Cynigion cyflawnadwy y a fforddiadwy sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn adlewyrchu'r gymuned. Cynllun mabwysiedig sydd â statws statudol i ddylanwadu. Mannau y gellir eu cynnal a'u cadw - atebion cynaliadwy. Mannau ar gyfer arbrofi ac egni a chreadigrwydd lleol.

**Bioamrywiaeth:** ardaloedd i gynyddu bioamrywiaeth, amsugno carbon a bywyd gwyllt. Gwybodaeth ddefnyddiol am fioamrywiaeth a sut i'w diogelu / gwella. Mapio'r holl fannau gwyrdd presennol. Iechyd a chyfiawnder 'Mwy na dynol'. Gwell dealltwriaeth o fioamrywiaeth yn yr amgylchedd trefol a sut y gall cymunedau gysylltu â hi.

**Lleisiau Cymunedol:** grwpiau, cyfarfodydd wyneb yn wyneb dan arweiniad aelodau o'r gymuned mewn ffordd gyfranogol, cymorth ariannol i'r rhai sydd leiaf tebygol o fynychu, sesiynau croesawu. Gwybodaeth am bwy i gysylltu â nhw. Lleisiau pawb - amrywiol. Pobl Grangetown, eu blaenoriaethau: dylent deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a galluogi ymddiriedaeth. Syniadau a chynigion a arweinir gan y gymuned. Cysylltiad â phob ysgol. Sgyrsiau cyson, nifer o ddulliau cyfathrebu. Gweledigaeth uchelgeisiol a grëwyd ar y cyd gan bobl. Fframwaith i adael i greadigrwydd ddigwydd. Lleisiau pawb

**Y cyd-destun ehangach:** gefeillio posibl ag ardaloedd yng Nghymru. Elfennau o bopeth y nodwyd ei fod yn bwysig i bobl. Ystyriaethau o ran costau byw.  Dealltwriaeth o heriau a chysylltiadau â nhw, e.e., tlodi a'r argyfwng hinsawdd. Gwyddoniaeth dinasyddion sy'n ymwneud â llesiant

# Y sgiliau a'r adnoddau y dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai y gallant eu cyfrannu yw:

Rhwydweithiau. Dealltwriaeth o gyd-gynhyrchu.

Syniadau ar sut i ennyn diddordeb y gymuned a'i chysylltu â natur, Sgiliau i gynnal digwyddiadau cymunedol, addysg amgylcheddol.

Sgiliau ymarferol a chynnal a chadw mannau gwyrdd a'u diogelu – darparu offer i'w benthyca. Mynediad at beiriannau. Cysylltu grwpiau.

Ymgysylltu â'r gymuned, addysg amgylcheddol, cysylltiadau â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Meddwl sut y gallwn ddefnyddio pŵer / ynni amgen. Yn gallu siarad am fanteision Ymdrochi yn y Goedwig er budd ein lles.

Rhwydweithiau a phrofiad bywyd.

Gwybodaeth am bolisi cynllunio trefol gan gynnwys cynlluniau gweithredu a chynlluniau lle, profiad helaeth o gyd-ddylunio gyda chymunedau amrywiol, gwybodaeth am y system gynllunio.

Draeniau / dinesig. Peirianneg SUDS: preswylydd lleol = llafur am ddim!

Brwdfrydedd a chyffro. Chwilfrydedd a hyder i herio'n bersonol.

Llawer o adnoddau sydd ar gael i bobl eu defnyddio ar gyfer ymgyrchoedd.

Lluniadu ac ysgrifennu, hoffter o fwsogl – ystyried bod y coedwigoedd wrth ein traed yn fan cychwyn i ddychmygu pryd y gall newid.

Arbenigedd mewn bioamrywiaeth a chyfranogiad y gymuned mewn mannau gwyrdd.

Rhannwch fy syniadau a'm profiad fel preswylydd tymor hir a rhywun sydd â diddordeb mewn llawer o'r pynciau a drafodwyd.

# Gweithdy dilynol Lleisiau Ifanc



Llun gan Peter Evans

## Dywedodd y cyfranogwyr y dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Lleisiau plant a phobl ifanc ar bob cam datblygu:** Lleisiau pobl ifanc. Pecyn cymorth i blant a phobl ifanc. Ymgynghori a chyfranogi sy'n addas i'r oedran O leiaf 'x' o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yng ngwahanol gamau'r cynllun. Paramedrau priodol lle y gall plant a phobl ifanc ddylanwadu / pwyntiau dylanwad.
Lleisiau ac anghenion y gymuned - mae angen iddynt fod yn hyderus y bydd eu barn yn cael ei chlywed.

**Lleoedd a gweithgareddau i blant a phobl ifanc:** Gwasanaethau i bobl ifanc. Gweithgareddau i bobl ifanc. Lleoedd i bobl ifanc gymdeithasu. Gwella tiroedd ysgolion Gwaith dylunio gwell ar gyfer parciau a lleoedd chwarae Ailgynllunio strydoedd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac y gellir chwarae arnynt. Dylunio lonydd yn well fel mannau chwarae a mannau cymdeithasol.

**Lleoedd a gweithgareddau i ferched a menywod:** Darpariaethau / lleoedd diogel i ferched, menywod a menywod ifanc.

**Meysydd newid:** Lleoedd sy'n coleddu atgofion ac yn cynnig cyfleoedd yn y dyfodol. Meysydd newid – mynd ati i hyrwyddo gwaith datblygu a all ddod â manteision i'r gymuned Mannau o werth. Gwella'r ffabrig adeiledig presennol. A allai cynllun lle fynd i'r afael â digartrefedd? Rhannu enghreifftiau da.

## Y sgiliau a'r adnoddau y dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai y gallant eu cyfrannu yw:

Deall pwyntiau ar y cynllun lle sy'n bwysig i bobl a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried yn gyfle i greu lleoedd.

Ysgrifennu cynlluniau. Myfyrwyr. Dealltwriaeth o'r broses gynllunio. Beth sy'n gwneud cynllun 'da'.

Cynnal sesiynau gyda phobl ifanc. Sgiliau gwaith ieuenctid. Cyswllt â gwahanol ddarpariaethau ieuenctid.

Rhoi cyngor ar ddylunio amgylcheddau plant. Rhoi cyngor ar ddylunio trefol / dylunio strydoedd a mannau cyhoeddus. Helpu i ddylunio / rhoi cyngor / gwerthuso ymyriadau. Rhoi cyngor ar ddulliau o ennyn diddordeb plant.

Darparu gweithgareddau priodol ar gyfer ymgynghori neu gyfeirio atynt. Helpu i feddwl am ddull seiliedig ar hawliau tuag o ymdrin â chynllun lle.

Cysylltiadau â'r gymuned. Iaith / sgiliau cyfathrebu Ffyrdd o gynnwys lleisiau wedi'u heithrio.

# Gweithdai dilynol ar-lein + Tramshed Tech

## Dywedodd y cyfranogwyr y dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Mynediad Teg:** Ymwybyddiaeth o alluoedd gwahanol pobl ar gyfer symud o gwmpas yn yr ardal. Yn gorfforol ac yn synhwyraidd e.e. sicrhau bod lleoedd yn fwy hygyrch, yn fwy addas ar gyfer pobl fyddar neu ddall, yn ystyriol o ddementia ac ati. Mwy o wyrddni ac elfennau dylunio sy'n tawelu. Treialu dulliau arloesol o gefnogi pobl ag anghenion cymhleth.

**Targedau:** Targedau a mecanweithiau ar gyfer gwella'r ardal yn raddol sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau allweddol.

**Targedau ar gyfer amgylchedd iach:** Ailbennu mannau cyhoeddus o feysydd parcio preifat ar gyfer natur a defnyddiau eraill. Sicrhau bod llygredd aer o fewn terfynau Sefydliad Iechyd y Byd. Bodloni'r safonau gofynnol mewn perthynas â mynediad at natur ac ynni cartref. Mynediad teg i fannau gwyrdd ar gyfer tyfu a dysgu, cefnogi bioamrywiaeth, iechyd meddwl ac ati. Gwaith gwyrddu strydoedd ar gyfer strydoedd heb natur e.e. toeau gwyrdd, gwaith plannu o amgylch polion lampau ac ati. Mwy o goed, mannau gwyllt e.e. mae Parc Seven Oaks yn fan perffaith ar gyfer dad-ddofi tir / plannu mwy o goed, blodau gwyllt. Cynefin ar gyfer pryfed ac anifeiliaid. Mwy o ardaloedd 'dim torri gwair'. Cynlluniau i fynd i'r afael â llygredd aer, seilwaith gwael ac ymddygiad mewn perthynas â theithio llesol. Llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio.

**Moethusrwydd Cyhoeddus:** Pyllau nofio gwyllt trefol, coedwigoedd bach, systemau draenio trefol cynaliadwy, perllannau trefol - awyr yw'r terfyn.

**Busnesau lleol annibynnol:** Lle i gwmnïau lleol sefydlu busnesau newydd.

**Hanes a Diwylliant:** Hanes a Diwylliant yr ardal.

## Y sgiliau a'r adnoddau y dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai y gallant eu cyfrannu yw:

Mae gen i gefndir y maes ymgyrchu felly rwy'n berson eithaf amryddawn, gyda rhai cryfderau penodol yn ôl pob tebyg o ran dadansoddi a defnyddio deunydd digidol a data.

Cydgysylltydd Allgymorth a Rhwydweithiau yn fy rôl bresennol - meithrin cydberthnasau, ymchwil i ddefnyddwyr a chwarae rôl wrth ddatblygu gwasanaethau digidol i ail-bweru democratiaeth.

Profiad garddwriaethol. Egwyddorion dylunio permaddiwylliant h.y. gofalu am y ddaear, gofalu am bobl, cyfran deg.
Celf a chreadigrwydd. Rhoi gwybod am newidiadau mewn natur / yr hinsawdd.

Gallwn eich cysylltu â mwy na 30 o gyrff anllywodraethol sy'n gweithio yng Nghymru – elusennau natur ac elusennau hamdden a sefydliadau sy'n canolbwyntio ar adfywio lleol.

Yn cynnig lle, ein hacademi cychwyn busnes.

Cynhyrchu cynnwys.

Tramshed Tech



# Gweithdy sgwrs 'cau pen y mwdwl'

## Dywedodd y cyfranogwyr y dylai Cynllun Lle Grangetown gynnwys y canlynol:

**Lleisiau Cymunedol: Y** bobl! Mewnbwn lleol. Pob llais. Holl gymunedau Grangetown. Dylai fod yn ymwneud â phobl o Grangetown. Natur fel rhanddeiliad. Atebion lleol sydd hefyd yn cydnabod/ herio problemau byd-eang. Ymdeimlad o berchnogaeth o fewn cymunedau. Dulliau cynhwysol. Ymddiriedaeth.

**Mynediad cyfartal:** Mannau diogel - y gall pawb eu cyrraedd – cost fforddiadwy cartrefi, cludiant a hygyrchedd i'r hen a'r ifanc. Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, disgwyliad oes a chydraddoldeb. Mannau cyhoeddus lle nad oes rhaid i chi wario arian. Gwerth cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Strategaethau i hyrwyddo cydraddoldeb. Yr effaith ar Iechyd a Lles. Mynediad i fannau a mannau gwyrdd sydd hefyd yn eiddo i'r gymuned leol. Disgwyliadau uchel. Uchelgais.

**Tystiolaeth:** Datganiadau ansoddol a mesurau meintiol wedi'u mapio. Deunydd gweledol! Dylai cynllun lle fynd y tu hwnt i eiriau ffansi. Gosod paramedrau a rheoli disgwyliadau.
Bod yn onest ac yn agored o ran adnoddau.

**Meddwl ymlaen:** Y meini prawf yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Cartrefi ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Cynlluniwch i gynnwys pobl yn y gwaith o gynnal a chadw lle. Canlyniadau a chamau gweithredu mesuradwy. Ymdeimlad o frys.

## Y sgiliau a'r adnoddau y dywedodd y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai y gallant eu cyfrannu yw:

Darparu cysylltiadau proffesiynol â diwydiant er mwyn helpu gyda'r cynlluniau.

Chwilfrydedd a hyder i herio a chwestiynu.

Rhannu adnoddau a sicrhau bod iaith, fformatau ac ati yn addas i'r diben.

Cydberthnasau. Iaith gymunedol. Angerdd a brwdfrydedd.

Mapio gwerth cymdeithasol / Ansawdd Bywyd. Ysgrifennu a lledaenu. Casglu.

Gweithio gyda phobl ifanc. Partïon cymunedol. Lle llawn empathi.

Rhannu straeon am atebion posibl a thrafod a yw'r rhain yn briodol ar gyfer Grangetown.





Llun gan Peter Evans





Gweledigaeth y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai ar gyfer Grangetown

# Mewn pum mlynedd bydd Grangetown:

"yn gymdogaeth drefol gynaliadwy — gwyrdd, teithio llesol, cefnogi bywyd bob dydd"

"yn wyrddach, yn lanach ac yn cael ei harwain gan bobl"

"â chysylltedd "coridorau gwyrdd" rhwng ardaloedd"

"yn gymuned lle mae pawb yn teimlo eu bod yn berchen ar fannau gwyrdd"

"yn fforddiadwy i drigolion lleol barhau i fyw yma"

"yn gymdogaeth â thai sy'n cynrychioli'r gymuned sy'n byw yma"

"yn gymuned sydd â chysylltiadau gwell fyth lle mae cartrefi yn fforddiadwy i'r rhai y mae angen tai arnynt"

"yn arwain y ffordd o ran ymarfer cymunedol yng Nghaerdydd"

"yn gymdogaeth â chartrefi sy'n cael eu hadeiladu dan arweiniad y gymuned / cydweithrediaeth dai"



“yn esiampl o bwysigrwydd a phroses ymgynghori â’r gymuned”

“yn esiampl i ardaloedd eraill, gan alluogi eraill i ddysgu, cael llais a phŵer yn eu lleoedd eu hunain”

“yn lle i bawb, waeth beth fo’u cefndir, yn lle sy’n cynnig cyfleoedd i bawb sydd â thegwch wrth wraidd hyn”

“yn gymdogaeth lle mae datblygiadau a phrosiectau cymunedol yn cael eu cynnig yn seiliedig ar leisiau ac anghenion pobl yn y gymuned (yn enwedig pobl ifanc)”

“yn lle sy’n arddel agweddau a arweinir gan y gymuned sy’n cael eu cefnogi/meithrin gan sefydliadau”

“yn gymdogaeth lle y mae trigolion yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod”

“yn gymdogaeth lle mae mwy o bobl ifanc yn dod at ei gilydd, yn rhannu eu syniadau ac yn gweithredu yn y gymuned”

“yn gymdogaeth lle y gall pobl ifanc deimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a’u cydnabod”

“yn lle gwych i blant dyfu i fyny”
“yn lle gwych i bobl heneiddio”

# Myfyrdodau ar y cwestiynau ymchwil

**1. Sut y gellir gwneud ymgynghoriad cymunedol yn fwy defnyddiol ac effeithiol ar draws cyd-destunau polisi amrywiol y DU?** Un neges gyson oedd bod yn rhaid i unrhyw ymgynghoriad fod yn onest ynghylch i ba raddau y gall barn a gwybodaeth pobl lywio'r broses o wneud penderfyniadau, os o gwbl. Dylid gwerthfawrogi'r amser, y wybodaeth a'r sgiliau y mae pobl yn dewis eu rhannu; meithrin cydberthnasau yn hytrach na thynnu gwybodaeth. Yn hytrach na bod yn 'anodd eu cyrraedd', mae pobl yn mynd ati i gamu i ffwrdd o ymgynghoriadau oni bai bod tystiolaeth y bydd cymryd rhan yn cael effaith ystyrlon ar benderfyniadau.

**2. Sut y gellir gwneud ymgynghoriad cymunedol yn fwy cynrychioliadol a chynhwysol?** Buddsoddwch yn lleol yn y byrdymor a'r hirdymor. Crëwch adnoddau ac arbenigedd i gymunedau gymryd yr awenau mewn ymgynghoriadau. Ewch ati i gyd-greu gyda rheolwyr partneriaethau cymunedol o'r dechrau, gan roi cyfle i addasu ymgynghoriadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol i bobl leol. Peidiwch â homogeneiddio cymunedau; dewch â phobl ag amcanion cyffredin at ei gilydd i gyfnewid a datblygu gwybodaeth.

**3. Sut y gellir ymgynghori â'r gymuned ar gyfer ardaloedd nad ydynt wedi cael eu datblygu eto, pan nad yw 'defnyddwyr y dyfodol' yn hysbys?** Roedd y sylwadau'n pwysleisio'r angen i dai yn yr ardal gynrychioli anghenion pobl yn y gymuned. Gweithiodd yr ystafell drefol orau wrth gysylltu unigolion a sefydliadau sydd eisoes yn weithgar yn yr ardal, gan gynnig rhwydwaith posibl i lywio cynigion gyda gwybodaeth leol am anghenion cymunedau presennol ac yn y dyfodol.

**4. Beth yw manteision cymharol ymgynghori â'r gymuned ar-lein ac yn bersonol?** Roedd yn well gan bobl gymysgedd o blatfformau ar-lein a ffisegol. Roedd ymgynghoriadau ar-lein yn fwy cyfleus ac yn fwy hygyrch i rai; roedd ymgynghoriadau ffisegol ar adegau a mewn fformatau gwahanol yn cael eu gwerthfawrogi am y gallu i rannu a chlywed barn pobl eraill. Gwerthfawrogwyd y cyfle i gysylltu ag eraill yn y ddau fformat.

**5. Sut y gellir gwneud ymgynghori â'r gymuned yn brosiect hirdymor sy'n meithrin trafodaeth ddinesig barhaus?** Defnyddiwch ymgynghoriadau i wneud cysylltiadau. Cododd digwyddiadau cyhoeddus mawr ymwybyddiaeth a gwneud cysylltiadau cychwynnol ag amrywiaeth eang o unigolion a sefydliadau a oedd â diddordeb yn yr ymgynghoriad. Roedd gweithdai dilynol penodol wedi dwyn ynghyd unigolion a sefydliadau presennol a oedd â diddordeb penodol yng nghamau nesaf ymgynghoriad ac y gallai eu sgiliau, eu harbenigedd a'u hadnoddau gyfrannu at y camau nesaf.

**6. Sut gall mapio gwerth cymdeithasol lywio'r broses o ymgynghori â'r gymuned?** Mae map Lleisiau Cymunedol Caerdydd yn dangos y bydd pobl yn rhannu barn gadarnhaol am y lleoedd sy'n bwysig iddyn nhw, ac yn disgrifio'r rhesymau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd a'r rhesymau o ran llesiant pam mae'r lleoedd hynny'n cael eu gwerthfawrogi. Gall y gronfa ddata hon lywio prosesau gwneud penderfyniadau am y lleoedd penodol y mae pobl yn nodi eu bod yn bwysig iddyn nhw, yn ogystal â darparu gwybodaeth am y gwerthoedd y dylid eu cynnwys mewn cynigion yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill.

**7. Pa derminoleg sydd ei hangen i ddisgrifio ymgynghoriad cymunedol cynhwysol, grymusol yn yr 21ain ganrif?** Dywedodd pobl y gallant weld drwy jargon ac y gallai iaith ymgynghori gael effaith negyddol arnynt a'u bod ei drwgdybio fel rhywbeth gwag. Defnyddiwch iaith onest, agored, syml nad yw'n addo gormod, nad yw'n gwneud rhagdybiaethau am yr hyn sydd ei eisiau ar bobl, ac sy'n nodi'n glir beth mae'r ymgynghoriad yn anelu at ei wneud a beth all ddigwydd o ganlyniad.









LLEISIAU
CYMUNEDOL
CAERDYDD

LLEISIAU
CYMUNEDOL
CAERDYDD

LLEISIAU
CYMUNEDOL
CAERDYDD





# Lleisiau Cymunedol Caerdydd: Crynodeb

**Ystafell drefol:** Profodd Lleisiau Cymunedol Caerdydd ystafell drefol ar raddfa cymdogaeth ym Mhafiliwn Grange sydd dan arweiniad y gymuned. Cynhaliwyd 4 wythnos o weithgareddau ym mis Mai 2022, gyda dros 1000 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn cysylltu â'i gilydd i drafod themâu Iechyd a Lles, Tai, Mannau Gwyrdd a Lleisiau Ifanc.

**Map ac arolwg ar-lein:** Gosododd pobl 435 o binnau map ar leoedd sy'n bwysig iddyn nhw yng Nghaerdydd drwy blatfform ar-lein Commonplace. Defnyddiwyd themâu'r Sefydliad Ansawdd Bywyd, sef Rheolaeth, Iechyd, Natur, Rhyfeddod, Symud a Pherthyn i ddeall sut pam mae'r lleoedd hynny yn bwysig i bobl. Dangosodd y pinnau ar y mapiau a'r sylwadau werth mynediad i barciau a mannau gwyllt fel lleoedd sy'n dod â manteision o ran lles corfforol a meddyliol a chysylltu â ffrindiau, teulu a chymunedau.

**Iaith ymgynghori:** mewn gweithdai a sesiwn gyhoeddus trafodwyd drwgdybiaeth o jargon a goblygiadau negyddol iaith ymgynghori a all wneud addewidion gwag, creu rhwystrau, neu a all gael effeithiau negyddol os na fydd yn cael ei dilyn gan gamau gweithredu pendant.

**Sgyrsiau am Gynllun Lle Grangetown:** llwyddodd wythnos o weithdai cyhoeddus dilynol ym mis Tachwedd 2022, a gynhaliwyd gyda'r Porth Cymunedol ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru, i ddwyn ynghyd Gyngor Caerdydd a rhwydwaith newydd o drigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn lansio Cynllun Lle gan arweiniad trigolion lleol, er mwyn bwydo i mewn i waith cynllunio tymor hwy Caerdydd.

**Nodau ar gyfer Cynllun Lle Grangetown:** Mae'r sgyrsiau'n disgrifio'r uchelgeisiau ar gyfer cynllun Lle Grangetown fel hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth gymunedol a phartneriaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch tai a mannau gwyrdd, sy'n themâu cyffredin gan gynnwys Grangetown sydd 'yn ffynnu', 'yn gysylltiedig', 'yn gynaliadwy', 'yn weithredol', 'yn fforddiadwy', 'yn deg', 'yn esiampl i eraill', 'yn gynhwysol', 'yn decach', 'yn wyrddach' ac 'yn iach' ac sy'n hyrwyddo 'lles.

**Unigolion a Sefydliadau:** Mae'r unigolion a'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y sgyrsiau cynnar hyn gyda'i gilydd yn dod ag amrywiaeth eang o sgiliau ac adnoddau, sy'n amwyrio o brofiad ym maes trefnu cymunedol, cyd-gynhyrchu, gwybodaeth am gynllunio, bioamrywiaeth, gwyrddu, hinsawdd a rheoli data, i wybodaeth fanwl am yr ardal leol, rhwydweithiau ehangach o bobl a sefydliadau, diddordeb, brwdfrydedd ac angerdd.

**Y camau nesaf:** Bydd Ymgynghoriad Cymunedol ar gyfer Ansawdd Bywyd (CCQol) yn cyhoeddi adroddiadau Lleol a Chenedlaethol ar ymgynghori â'r gymuned, ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd ac argymhellion o bob un fel adroddiad i'r DU gyfan. Bydd CCQol yn datblygu Cod Ymddygiad ar gyfer ymgynghori yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd. Yng Nghaerdydd, mae sgyrsiau yn parhau ag unigolion a sefydliadau sydd â diddordeb mewn lansio Cynllun Lle Grangetown, y Porth Cymunedol, Pafiliwn Grange a Chyngor Caerdydd, er mwyn nodi cyfleoedd i fwrw ymlaen â'r safbwyntiau a'r argymhellion sydd wedi'u rhannu yma.

**Diolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a rannodd eu harbenigedd a'u gwybodaeth.**

## Grŵp Cynghori Lleol Lleisiau Cymunedol Caerdydd

| | |
|---|---|
| Aisha Ali | CDF Planning, Mela Cymru |
| Huda Ali | Preswylydd |
| Stephanie Bolt | Creative Commons Cardiff |
| Mark Drane | Urban Habitats |
| Lyn Eynon | Cymdeithas Ddinesig Caerdydd |
| Letty Clarke | Artes Mundi |
| Phillip Henry | Honeycomb Cooperative |
| Deborah Keyser | Tŷ Cerdd |
| Gaynor Legall | Diverse Excellence Cymru |
| Ena Lloyd | (Cyn) Office of National Statistics |
| Liza Musa | Preswylydd |
| Lee Patterson | Caerdydd Sy'n Dda i Blant |
| Yaina Samuels | Adferiad Recovery |
| Hayley Selway | CCHA Housing |
| Nirushan Sudarsan | Grange Pavilion Youth Forum CIC |
| Lynda Thorne | Cyngor Caerdydd- Yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau, Cynghorydd o Grangetown |
| Matthew Wargent | Prifysgol Caerdydd - Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio |
| Caro Wild | Cyngor Caerdydd - Yr Aelod dros Newid yn yr Hinsawdd, Cynghorydd o Glan-yr-Afon |
| Amina Yusuf | Preswylydd |

**Cydweithwyr, cyfranwyr a chefnogwyr:**

Gwasanaethau argraffu Adeilad Bute
Camarados Public Living Room
Cyngor Caerdydd  - Datblygu ac Adfywio
Cyngor Caerdydd - Gwasanaethau Parciau
Cyngor Caerdydd - Cynllunio
Cyngor Caerdydd - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cyngor Caerdydd  - Trafnidiaeth a Chynllunio Strategol
Cardiff National Park City
Gwasanaeth Ieuenctid Caerdydd
Prifysgol Caerdydd - Cenhadaeth ddinesig ac Ymgysylltu a'r cyhoedd
Prifysgol Caerdydd - Porth Cymunedol
Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro
Swyddfa'r Comisiynydd - Comisiynudd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Cwmpas
Dan Benham Architects
Foundation for Sports Coaching CIC
Four Winds
Gweithredu Cymunedol Grangetown
Ysgol Feithrin Grangetown
Pafiliwn Grange
Ysgol Gynradd Grangetow
Ceidwaid a Phrentisiaid Lle Grangetown
Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Hideout Cafe
Holloway Partnership
IBI Group
Mahmina Khan Henna
Ninian Park Primary School
The Privilege Cafe
Cymdeithas Tai Taf
Sef Cymru
Senedd Cymru
Serenity Housing
Spark Lab
Race Council Cymru
Royal Society of Architects in Wales RSAW
RSPB Cymru
South Riverside Community Development Centre
Task Systems
Touchstone Journal
Tramshed Tech
Trafnidiaeth Cymru
Prifysgol De Cymru
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
UNAM University of Namibia
Urbanists
Vegetarian Food Studio
Wellbeing and Shiatsu Massage
Wagstaff Interiors Group
Prifysgol Caerdydd - Ysgol Pensaernïaeth Cymru
Ysgol Hamadryad
Llawer o unigolion!

https://communityvoicescardiff.commonplace.is/cy-GB